

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 2014

Rhif 446

50c

Creu Atgofion...



Y plantos yn disgwyl eu tro i gymryd rhan yn y mabolgampau

UNWAITH eto eleni, cafwyd Sioe Amaethyddol lwyddiannus ar gaeau Dôl Ddafydd. Daeth y gymuned gyfan bron ynghyd yn yr heulwen i fwynhau'r gweithgareddau, gyda dros 2000 o bobl yn dod trwy'r giataiau. Er i ni gael ambell gwmwl bygythiol ganol dydd, cadw draw a wnaeth y glaw diolch i'r drefn. Gwelwyd cystadlu brwd ym mhob adran, boed gyda'r anifeiliaid, yr adar, y peiriannau neu rasys y plant, heb sôn am yr holl waith a oedd wedi'i arddangos yn y babell fawr wen. Roedd y babell dan ei sang wrth i bobl heidio yno i fwynhau'r arddangosfa wych. Diolch i griw bach o wirfoddolwyr gweithgar, mae'r sioe hon yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn. Mae hwn yn ddyddiad pwysig yng nghalendr y Dyffryn ac mae cryn edrych ymlaen at sioe 2015 yn barod! Llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobwr ar y diwrnod a diolch i bawb am gystadlu ac am ddod draw i gefnogi!



Llwyddiant Dafydd Jones, Ffarm Coetmor, yn yr Adran Defaid Mynydd Cymreig.



Enillydd Tarian Mabinogion am y cynnyrch gorau yn yr Adran Goginio oedd Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.

...a Hel Atgofion

Brynhawn ddydd Sadwrn, 28 Mehefin, daeth nifer fawr o drigolion yr ardal ynghyd yn Festri Capel Carmel i fwynhau arddangosfa hen luniau gyntaf Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid. Yn wir, cafodd pawb fodd i fyw yn pori drwy'r hen luniau ac yn hel atgofion gyda'i gilydd.



Rhai o'r trigolion yn astudio'r lluniau'n ofalus

Cafwyd cyfle i sgwrsio a thrafod dros banded hefyd, a phawb yn gytûn bod yr arddangosfa'n werth ei gweld. Mae yna hen edrych ymlaen at yr arddangosfa nesaf yn barod, sef diwedd mis Mehefin 2015. Felly, nodwch y dyddiad yn y calendr er mwyn i chi gael gwledd arall o luniau y flwyddyn nesaf. Diolch i'r holl drefnwyr am brynhawn difyr dros ben ac am ddod â'r gymuned ynghyd i drafod y dyddiau a fu.

Mwy o'r hanes dan newyddion Rachub a Llanllechid

Mwy o luniau'r Sioe ar y tudalennau canol

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 07901
dewision@hotmail.co.uk 913901

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard ☎ 07402
trystanrp1@gmail.com 373444

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Fiona Cadwaladr Owen.

Golygyddion mis Medi fydd Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3 NN. (01248 601167) waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 3 Medi, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 18 Medi, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**Ariennir yn rhannol
gan Lywodraeth Cymru**

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Gorffennaf

23 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

29 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.

Awst

01 Gruff Rhys, Santiago. Gig yn Neuadd Ogwen.

09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

23 Miri Meurig. Parc Meurig. Hwyl i'r Plant. 11 – 4.

24 Barbiciw. Llys Dafydd.

30 Meic Stevens, Siôn Richards. Gig yn Neuadd Ogwen.

Medi

05 Sefydliad y Merched Carneddi. Gosod Blodau gyda Theta Owen. Cefnfaes am 7.

10 Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Noson Groeso. Cefnfaes am 7.30.

13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

18 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Gorffennaf

- £30 (169) Rita Lewis,
2 Pantglas, Bethesda.
- £20 (155) Bessie Buckley,
32 Maes Ogwen, Tregarth.
- £10 (35) Huw D. Jones,
Y Wern, Gerlan.
- £5 (113) Ceinwen Hughes,
Llys Eurgain, Braichmelyn.

Rhoddion i'r Llais

- £20.00 Mrs Margaret Williams,
6 Rhos y Coed, Bethesda.
- £20.00 Er cof am Mrs Margaret Jones,
Rhiwlas oddi wrth Menai,
Margaret, Elwyn a'u teuluoedd.
- £10.00 Er cof annwyl am Mair Roberts
(27 Glan Ffrydilas gynt) oddi wrth
Bet.
- £ 5.00 Er cof am Gwilym Rees Griffith a
hunodd 17 Gorffennaf 2000. Buasai
yn 90 mlwydd oed ym mis Awst).
"Meddwl amdanat bob dydd,"
Joan, Sher a Steve.
- £50.00 Er cof annwyl am George Smith,
2 Maes y Garnedd, Bethesda, oddi
wrth Tina a Nathan.

Diolch yn Fawr

Y LLAIS YN 40

Bydd yn Llais yn 40 oed ym mis Hydref. Os oes gennych unrhyw eitem addas yr hoffech i'r pwyllgor ei ystyried ar gyfer atodiad arbennig y dathlu, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r golygyddion.

CALENDR LLAIS OGWAN 2015

COFIWCH!

Unrhyw luniau i'w hystyried ar gyfer Calendr 2015 i mewn erbyn diwedd Gorffennaf. Mae nifer dda eisoes wedi cyrraedd, ond mae lle i lawer mwy.

Dafydd Fôn
14/4 Stryd y Ffynnon Gerlan
deifon@yahoo.co.uk

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Annwyl Ddarllenwyr

Cymru ar fin colli cymar Celtaidd?

Cymraes wedi fy magu yn Ninbych ydw i, ond yn hanner Llydawes ac yn siarad Llydaweg gyda Mam bob dydd. Oherwydd hynny, mae clywed am y gwarth a'r annhegwch o du draw i'r dŵr wedi fy nychryn.

Rhanbarth yng Ngogledd-orllewin Ffrainc yw Llydaw ond fe fu hi unwaith yn wlad gyda'i hawliau ei hun. Mae treftadaeth Llydaw a'r balchder sydd gan y bobl yn dal yn bodoli yno; ond heddiw mae hunaniaeth 4.5 miliwn o Lydawyr yn y fantol.

Mae Llywodraeth loerig Ffrainc wedi penderfynu ailwampio'r wlad, sy'n golygu y bydd y 'départements' yn diflannu'n gyfan gwbl erbyn 2025. I Lydaw bydd hyn yn drychineb oesol gan mai'r bwriad yw uno Llydaw gydag ardal arall o Ffrainc sef rhanbarth Pays-de-Loire gan greu'r "Grand-Ouest" - 'Y Gorllewin Mawr'. Does dim dwywaith y bydd hyn yn lladd y wlad, yr iaith ac unrhyw ymdrech sydd wedi bod yn y gorffennol i amddiffyn hanes ac etifeddiaeth Llydaw.

Cyhoeddwyd drafft cyntaf y llywodraeth ynglŷn â'r syniad bondigrybwyll hwn ar yr 11eg o Ebrill, 2014 ac mae'n rhaid dweud ei fod yn cydnabod ffiniau Llydaw. Ond mae pethau wedi newid yn gyfan gwbl ers i lywodraeth Ffrainc gyhoeddi map hurt ar gyfer Ffrainc y dyfodol, ar y 3ydd o Fehefin; ond oherwydd cyfleustra yn unig nid parch. Nid oes gan Ffrainc unrhyw ots o gwbl am deimladau 'y werin yn y gorllewin' ac ni fydd gan y Llydawyr fawr o lais yn y mater. Yr unig obaith oedd protest anferth yn Nantes ar 28 Mehefin 2014 - roedd 10,000 wedi bod yn protestio yn Nantes eisoes ar 19 Ebrill 2014.

Maent wedi dioddef cymaint dros y blynyddoedd, gyda Llywodraeth Ffrainc yn gwrthod hawliau, yn rhaffu celwyddau gan droi'r bobl yn erbyn eu gwlad ac yn peryglu traddodiadau. Mae cannoedd wedi aberthu eu bywydau drosti, a cholli'r teimlad hwn o fod yn wlad, fydd yr ergyd olaf yn ei herbyn, gwaeth na phan dynnodd Llywodraeth ffasgaid y Maréchal Pétain Nantes, cyn-brifddinas Llydaw, a'i hardal oddi wrth Lydaw ym 1941.

Ond a ydych chi'n sylweddoli y bydd difrod yn cael ei greu yng Nghymru hefyd? Ni fydd gwyliau i 'Lydaw' yn bodoli mwyach na chwaith pwrpas i'r gefeillio rhwng trefi Cymru a

Llydaw. Byddem ni'n colli un o'n Chwiorydd Celtaidd a beth sydd i ddweud nad y ni fydd nesaf? Y gobaith yw ein bod ni'n agosáu at annibyniaeth, ond beth os mai ein tynged ni o dan grafangau San Steffan fydd 'Lloegr Fawr'? Mae'n ddyletswydd arnom ni, fel cenedl sy'n gyfarwydd â dioddef dan ormes cymydog, i gefnogi'r achos yn Llydaw. Rydym ni'n gwybod pa mor dyngedfennol fyddai penderfyniad felly yng Nghymru, a yw hi'n anoddach credu mai'r un yw'r sefyllfa yn Llydaw? Mae'r Aelod Seneddol Ewropeaidd Jill Evans yn poeni bod Ffrainc yn dangos esiampl ddrwg i wledydd mawr eraill. Byddai hynny'n gallu cael effaith ar leiafrifoedd eraill yn Ewrop. Mae'r Llywodraeth eisiau i Senedd Ffrainc ddod i benderfyniad terfynol cyn diwedd yr haf, yn slei bach, pan fydd pobl ar eu gwyliau.

Ni allaf i hyd yn oed ystyried na fyddaf i'n medru dweud mai hanner Llydawes ydw i ac rwy'n gobeithio y bydd 'Llydaw' yn parhau i fod yn gartref i mi am chwe' wythnos bob haf.

Os hoffech wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn Llydaw, ewch i Facebook *Bretagne Réunie*, *Support the Reunification of Brittany* neu Facebook *Dominig Kervegant* (kervegant.tregarth@googlemail.com).

Maiwenn Berry, Dinbych
(*Disgybl Blwyddyn 12,*
Ysgol Glan Clwyd)

5 Heol Belmont,
Bangor,
LL57 2HS
(01248) 371987;

digwyddiaturgoriad@yahoo.co.uk

Annwyl Olygydd,

Ers bron dwy flynedd mae'r *Goriad*, papur bro ardal Bangor a'r Felinheli, wedi cynnwys Digwyddiadur, manylion cryno am ddiwyddiadau yn Gymraeg, neu o ddiweddordeb i Gymry Cymraeg, yn yr ardal.

Yn ddiweddar, mae'r un wybodaeth wedi bod ar gael ar wefan Menter Iaith Bangor. Yno mae lle i gynnwys rhagor o fanylion, i sôn am ddiwyddiadau o ardal ehangach, ac i roi rhagor o rybudd. Mae rhywun yn synnu at y cyfoeth o ddiwyddiadau sydd ar gael. Cewch weld hyn eich hun ar wefan Menter Iaith Bangor, <http://www.menteriaithbangor.org/>.

A oes yn eich ardal gyngherddau, dramâu, eisteddfodau, teithiau cerdded, darlithoedd llenyddol a.y.b. y byddai trigolion ardal *Y Goriad* â diddordeb ynddynt, ond iddynt wybod amdanynt mewn pryd? A gaf i ofyn i swyddogion cymdeithasau nodi cyfeiriad e-bost y Digwyddiadur, ac anfon atom fel mater o arfer wrth hysbysebu. Os hoffent dderbyn rhybudd cyn dedlein y papur bob mis, cânt anfon e-bost ataf rŵan i gael eu cynnwys ar y rhestr bostio.

Os bydd rhywbeth wedi'i drefnu ymhell ymlaen llaw, ond y manylion heb fod yn hysbys, nid oes angen oedi. Rhaid wrth y dyddiad, y digwyddiad, a manylion cyswllt un o'r trefnwyr. Gellir ychwanegu'r amser, y lleoliad, y perfformwyr ac ati'n nes ymlaen.

Wrth gwrs, mae modd talu am hysbyseb amlycach yn y papur ei hun, ond bydd sylw ar y wefan ac, os bydd lle, yn Nigwyddiadur *Y Goriad* ar gael yn rhad ac am ddim.

Yn gywir,
Ann Corkett,
Golygydd Digwyddiadur y Goriad

Arddangosfa Wych

43 Ffordd Pant,
Llanfairpwll,
Sir Fôn.

Annwyl Olygydd,
Carwn, drwy gyfrwng Llais Ogwan, fynegi fy ngwerthfawrogiad o'r Arddangosfa Hen Luniau a gynhaliwyd gan Glwb Hanes Rachub a'r Cylch yn Festri Capel Carmel ddydd Sadwrn, 28 Mehefin.

Mwynhad pur i mi oedd bod yn bresennol ymhlith y llu o bobl, o bell ac agos, a chael hel atgofion am yr hen ddyddiau! Diolch yn arbennig i Dilwyn a Linda Pritchard am eu gwaith caled yn rhoi popeth at ei gilydd mewn trefn mor arbennig o ddiadorol. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd luniau tuag at yr arddangosfa wych hon.

Rwy'n edrych ymlaen at y nesaf yn barod!

Yn gywir iawn,
Vivienne
(Ellis gynt - Hogan o Rachub)

Pwyllgor Apêl Ward Alaw

Annwyl Olygydd,

Ar y 6ed o Fehefin, trefnwyr taith ar drên bach Llyn Padarn gan Bwyllgor Apêl Ward Alaw i godi arian er mwyn cael mwy o offer i'r ward

Dechreuodd y daith o orsaf Llanberis a chafwyd taith bleserus i Gei Llydan sydd bron hanner ffordd i lawr y llyn. Yno yn disgwyl i ddiddanu'r teithwyr oedd deg o wirfoddolwyr o Fand Biwmares. Wrth wrando ar y band, cafodd y 200 o deithwyr becyn o fwyd bendedig wedi ei baratoi gan staff Menter Fachwen, hwythau hefyd yn rhoi yn hael o'u hamser er mwyn cefnogi'r apêl. Braff oedd gweld cymaint o blant wedi dod, a diolch i rieni am godi ymwybyddiaeth eu plant o bwrpas y daith

Diolch yn arbennig i Gwmni Rheilffordd Llyn Padarn am ei haelioni a'i drefniadau ac i'r holl deithwyr o'r ardal a ddaeth am dro ar y trên bach. Hefyd i'r nifer sylweddol a fethodd â dod ond sydd wedi cyfrannu'n arbennig o hael at yr achos.

Llwyddwyd i gasglu £2000 tuag at gronfa Ward Alaw a charwn ddiolch i bawb a wnaeth y daith yn llwyddiant cymdeithasol ac ariannol.

Menai Thomas
(Aelod o'r Pwyllgor)

LLYFRGELL BETHESDA SIALENS DDARLLEN YR HAF Y CHWILFA CHWEDLAU

Blant y Dyffryn, mi fyddwch chi wrth eich bodd yn teithio o amgylch y Chwilfa Chwedlau.

Wrth i chi ddarllen, byddwch chi'n cwrdd â chreaduriaid rhyfeddol o fyd y chwedlau. Gallwch gadw cofnod o'r cyfan ar eich poster arbennig a chwblhau'r chwilfa gyda sticeri, sydd ar gael yn y Llyfrgell.

Felly dewch draw i'ch Llyfrgell ym Methesda i chwilio a chael hwyl.

Faint ohonoch chi fydd yn gorffen y Sialens tybed, ac yn derbyn eich medal?



Mae drws Tŷ Ni, Tŷ Chi ar gau am sbel gan fod y perchennog i ffwrdd!

Byddaf yn ôl Mis Medi ac yn gobeithio y bydd drws Tŷ Chi yn agored led y pen ac yn llawn syniadau/storiâu i'w rhannu â darllenwyr Llais Ogwan. Byw mewn gobaith!!

Cysylltwch trwy e-bost jan@erwlas.freeserve.co.uk
Cysylltwch trwy e-bost jan@erwlas.freeserve.co.uk
neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Diolch

Dymuna Eurwyn Hughes, Stad Coetmor, ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, yr arnhigion a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar. Diolch i bawb am eich holl garedigrwydd

Priodas

Llongyfarchiadau i Lynette a Mark, Ffordd Coetmor, ar eu priodas yn Lindos, Ynys Rhodes, ar 19 Mehefin. Pob hapusrwydd i chi yn y dyfodol.

Mynwent yr Eglwys, Coetmor

Mae aelodau Clwb Garddio y Fynwent am wneud apêl ariannol i gynnal a chadw'r fynwent yn y cyflwr gorau posibl. Yn y gorffennol, mae criw o'r aelodau wedi bod yn torri'r gwair a chlririo'r fynwent yn eu hamser hamdden, ond mae oed yn dechrau dal i fyny efo nhw fel pawb arall ac mae'r gwaith yn mynd yn galetach!! Erbyn hyn, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i roi cyfran helaeth o'r gwaith, yn enwedig y toriadau cyntaf, i gcontractwr. Mae hyn yn golygu talu. Hefyd mae angen cynnal a chadw'r peiriannau a ddefnyddir i drin y fynwent ac nid yw pethau yn dod yn rhad y dyddiau hyn. Os am weld y fynwent yn cael ei chadw yn daclus ac yn ddiogel i deuluoedd ymweld â hi a gosod blodau ar feddau anwyliaid, yna mae'n rhaid cael arian o rywle. Felly gwneir yr apêl hon am roddion ariannol i allu parhau gyda'r gwaith hwn.

Fe fydd gan y Clwb Garddio stonidin ym Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen ddydd Sadwrn, 9 Awst, pryd y bydd cyfle i unrhyw un gyfrannu at y fynwent.

Gellir anfon rhoddion hefyd at y Wardeiniaid – Mr Gilbert Bowen, 10 Stryd Hir, Gerlan, neu Mr Arwel Hughes, Preswylfa, Garneddwen, Bethesda.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Yn dilyn diwrnod agored llwyddiannus yng nghartref Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, ddydd Llun, 30 Mehefin, maent am ddiolch yn fawr iawn unwaith eto i bawb am eu cefnogaeth. Diolch i drigolion Dyffryn Ogwen a thu hwnt am ddod draw. Diolch am bob rhodd tuag at y diwrnod, boed

yn arian, yn nwyddau neu'n raffl. Diolch am gymorth Gwenda, Gwen, Angharad a Joshua a Helen Rhif 28, i Roy a Wendy ac i Richard am ei help ar ddiwedd y dydd. Diolch hefyd i Radio Cymru am alw draw am sgwrs ar gyfer Post Prynawn. Bydd elw'r diwrnod yn mynd at waith Cyfeillion Ysbyty Gwynedd, sef £1,300.00

Gair o Ddiolch

Dymuna Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau ac arnhigion y maent wedi eu derbyn ar achlysur dathlu eu priodas ruddem ar 22 Mehefin.

Cyfarchion Arbennig

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Doreen Dorrian, sy'n derbyn y Llais bob mis yn Birmingham, oddi wrth y teulu a'i ffrindiau i gyd o Fethesda.

Graddio

Llongyfarchiadau i Shân Pritchard o Danysgafell sydd wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol o Brifysgol Bangor. Da iawn ti Shân, pob dymuniad da i ti gan y teulu i gyd.

Gair o ddiolch

Dymuna Mrs Margaret Davies, Fiona a Hannah, Llain y Pebyll, a theulu y diweddar Mr David Hume Davies, ddiolch yn fawr iawn i deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth fawr o golli David. Diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion tuag at Hafan Menai. Maent hefyd am ddiolch i ysbytai Gobowen, Glan Clwyd a Gwynedd am eu gofal caredig. Hefyd i weinyddesau Macmillan a Marie Curie, meddygon a gweinyddesau lleol. Diolch i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am arwain y gwasanaeth, i Mrs Helen Williams am gyfeilio, ac i Mr J.P. Turner, Pentir am ei drefniadau tawel a pharchus.

Cyfarchion

Dymuna Marion, Ffordd Ffrydlas, anfon cyfarchion am wellhad buan i'w mam, sef Mrs Bet Doughty, Glan Menai, Treborth, wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Ysbyty

Mae sawl un wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth. Da deall bod rhai wedi dychwelyd adref ac yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd:

Mrs Ettie Evans, Glanffrydlas;
Mrs Rosie Owen, Pant Glas;
Mrs Karen De'Waart, Garneddwen;
Mrs Ruth Moore, Rhos y Coed;
Mrs Buddug Hughes, Carneddi;
Mr Thomas R. Jones, Rhos y Coed.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad â chwi a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Mr Bob Williams a'r teulu, Maesygarneidd (colli brawd annwyl yn Nhregerth);
Mr a Mrs Irfon Hughes a'r teulu,

Bryn Coetmor (collodd William ei chwaer, Mrs Doris Jones, Cilfodan).

Marwolaeth

Ar ddydd Iau, 26 Mehefin, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Elfed Roberts, 27 Ffordd Ffrydlas, yn 83 oed. Priod annwyl Mrs Helen Roberts a thad a thad-yng-nghyfraith hoffus a charedig. Taid annwyl i Katie, Gracie a Hannah Elin a brawd-yng-nghyfraith annwyl i'r teulu.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Iau 3 Gorffennaf gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor dan arweiniad ei gyfaill, y Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy, a chafwyd teyrnged hyfryd i Elfed gan ei frawd-yng-nghyfraith, Nelson.

Mr Wyn Williams oedd wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Pen-blwydd

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Mr Dafydd Pritchard, Rhos Elfed a oedd yn 70 oed ar 11 Gorffennaf.

Gorffwysfan

Ddydd Mercher, 2 Gorffennaf, aeth aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Southport. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Diolchodd Mr Elfed Bullock, ein cadeirydd, i bawb am ddod, i'r rhai a oedd wedi trefnu'r daith, ac i gwmni Clynnog a Threfor.

CAPEL BETHANIA

Gwasanaethau

Gorffennaf 20 Parchg. Gwynfor Williams
Awst – Dim Oedfaon
Medi 07 Miss Eleri Ll. Jones
Medi 21 Parchg Gwynfor Williams

Dechreuir am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am Boreol Weddi – 11.00am

Ail a thrydydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Ydych chi'n gwybod am rywun a fyddai â diddordeb mewn gwneud ychydig o waith teipio (Cymraeg) bob mis pan fydd Llais Ogwan yn dod allan. Tua 4 awr neu fwy.

07902 362213
01248 605743
post@tasg.co.uk



Cyfrannu at Apêl Eleanor



Cafodd Apêl Eleanor i brynu offer i Ward Alaw hwb fawr yn ddiweddar pan gyflwynwyd rhodd o £250 i'r Apêl gan Gymdeithas Cŵn Defaid Nant Peris. Cafwyd noson dda iawn gydag aelodau'r Gymdeithas, pan gyflwynwyd dwy rodd ganddynt, un i Apêl Eleanor, ac un arall i Tudur Owen, ar ran Hosbis yn y Cartref. Cyflwynodd Richard Griffiths sicc ar ran y Gymdeithas i Eleanor a Richard Jones, ac Ann Williams, o Apêl Eleanor. Yn bresennol hefyd roedd Tudur Owen, ar ran Hosbis yn y Cartref. Dymuna Pwyllgor Apêl Eleanor ddiolch o galon i'r Gymdeithas am eu haelioni.

Diolch

Hoffai Richard, Eleanor a'r pwyllgor apêl ddiolch o galon i Alun a Janet Davies am drefnu noson codi arian yn ddiweddar tuag at Apêl Eleanor.

Cynhaliwyd noson o adloniant ar 6 Mehefin yn y Clwb Criced a Bowlio yng nghwmni Hogia'r Bonc a Gwibdaith Hen Frân. Roedd yn noson hynod o dda a llwyddiannus a phawb wedi mwynhau a'r clwb yn orlawn unwaith eto. Diolch i'r Clwb Criced a Bowlio am gael defnyddio'r Clwb i gynnal ein gweithgareddau.

Mae Eleanor a Richard yn ddiolchgar dros ben i Hogia'r Bonc am roi o'u hamser unwaith eto a hynny yn rhad ac am ddim. Diolch i Gwibdaith Hen Frân hefyd am eu cyfraniad hwythau.

Mae ein diolch mwyaf i'r pwyllgor apêl gwych sydd gennym y tu cefn i ni am eu cefnogaeth gyson - Dafydd Fôn Williams, y Cynghorydd Ann Williams, Linda Brown a Joe Hughes. Beth fasan ni wedi ei wneud hebddynt!

Heb anghofio ein gwerthfawrogiad i bawb yn yr ardal a thu hwnt hefyd, sydd wedi cefnogi'r apêl o'r cychwyn ac yn dal i gefnogi. Mae yna gefnogaeth gyson o Lanberis, Llanrug, Caernarfon, Ynys Môn a Llanrwst hefyd, a chyn belled â Rhuthun a Llangollen.

Mae'r apêl wedi mynd o nerth i nerth ac mewn cyfnod o ryw flwyddyn a hanner y mae erbyn hyn wedi codi oddeutu £18,000, ac wedi ein galluogi i brynu llawer iawn o offer angenrheidiol a defnyddiol i Ward Alaw. Mae Eleanor, unwaith eto, yn gorfod derbyn mwy o driniaeth yn Ward Alaw ac felly'n awyddus i barhau i godi arian er mwyn cael prynu mwy o offer a fydd yn gyfforddus i'r cleifion ac yn hwylus i'r staff. Mae cadeiriau gorwedd (*reclining*) ar archeb erbyn hyn. Ac mae'r diolch am hyn i chi gefnogwyr a pherfformwyr.

Felly diolch i bawb a gwyliwch allan am y gweithgaredd nesaf yn y dyfodol agos!

Yr Eglwys Unedig

*'Rhaid iddi frafio cyn troad y rhod
Neu glaw a geir am y mis i ddod'*

Diolchwn ein bod wedi mwynhau tywydd braf ac y bydd yn llesol i rai anhwylyd eu hiechyd. Cofiw'n bawb sydd yn wael. Meddyliwn yn arbennig am Mrs Ettie Evans, Glanffrydlas sy'n wael yn yr Ysbyty. I'r gwrthwyneb, llawenydd yw deall fod Nita Jones a Jennie Jones yn gwella'n ddyddiol ar ôl triniaeth.

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus yn y capel nos Lun 2 Mehefin - Cyngerdd Lansio 'Chwalfa' - efo perfformwyr lleol dawnus yn diddanu cynulleidfâ niferus. Arweinydd y noson oedd Neville Hughes, a chyflwynwyd eitemau amrywiol gan Gôr Meibion y Penrhyn, Lisa Jên, Parti cân actol Ysgol Llanllechid, Siôn Rich a Gwyn Owen.

Trefnwyd yr achlysur gan Pontio, Cwmni'r Frân Wen a Theatr Cenedlaethol Cymru.

Ar y 3ydd o'r mis cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofal Emyr gyda Neville a Joe yn cynorthwyo i gyfeiliant Eileen.

Gan fod Jerusalem yn adeilad cofrestredig Graddfa 1 gyda 'Cadw,' ac yn addoldy o harddwch, roedd aelodau o Gymdeithas Victoria yn awyddus i ymweld â'r capel. Ar y 9fed o'r mis rhoddwyd anerchiad iddynt gan ein hanesydd lleol, Y Dr John Elwyn Hughes a chawsant foddhad mawr o wrando arno.

Y Gymanfa

Ar y 15fed, cynhaliwyd 'Moliant Y Plant' ym Merea Newydd am 10 y bore gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan ac yn cael eu gwobrwyo am yr arholiad. Yr arweinydd oedd Dafydd Wyn. Bu Fflur, un o athrawon yr Ysgol Sul, yn cymryd rhan yn oedfa'r nos.

Noson Goffi 25 Mehefin

Gwnaethpwyd elw anrhydeddus o £403 er budd Yr Ysgol Sul a Chlwb Nos Fawrth. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth mewn unrhyw fodd.

Adnod y mis: 'Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef.' Luc 24. 51

Oedfaon i ddod

Gorffennaf 20	Parch. Reuben Roberts
Gorffennaf 27	Parch. Cledwyn Williams
Awst 3	Mr R.J.H. Griffiths (10.00)
Awst 3	Parch. G. Roberts (5.00)
Awst 10	Parch. D.C. Williams.
Awst 17	Mr. J.O. Roberts (10.00)
Awst 17	Parch. W.R. Williams.

Priodas



Ar 30 Mai yn Eglwys y Santes Fair, Caerfaddon, priodwyd Hannah C. Dickerson ag Andrew G. Lomozik. Mae Hannah ac Andrew yn diolch am y dymuniadau gorau ac am yr anrhegion a dderbyniwyd. Byddant yn ymgartrefu ym Mryn Celyn, Pen y Bryn. Dymuniadau gorau iddynt oddi wrth y ddau deulu.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Cylch Ti a Fi

Dyna flwyddyn arall wedi hedfan, blwyddyn brysur iawn fu hi i'r Cylch eto leni.

Mwynhawyd dau drip i Gelli Gyffwrdd, trip i'r Den a daeth Anti Nicola ac Anti Alaw draw i chwarae gemau Iaith a gwneud gweithgareddau gwaith llaw. Cafwyd ymweliad â'r Sioe Meithrin a daeth Jackie, ymwelydd iechyd, i siarad â'r rhieni. Mae'r aelodau'n anfon eu cofion am wellhad buan at Millika. Brysia wella, Millika. Enillydd y gystadlueaeth sgwariau oedd Elen Hywel. Dymuna Keilly ddiolch, ar ran y pwyllgor, i bawb a fu'n cefnogi'r cylch drwy roi help llaw, rhoi gwobrau a rhoddion ar gyfer y Cylch. Diolch i Swyddogion Capel Carmel am ganiatáu i ni ddefnyddio'r Festri. Gobeithio y caiff pawb wyliau haf hapus ac fe'ch gwelwn eto ym mis Medi.

Priodas Arian

Mae teulu Alan a Susan Davies, Hen Barc am ddymuno'n dda i'r ddau wrth iddynt ddathlu eu priodas arian ar 29 Gorffennaf. Hwyl fawr ar y dathlu a gobeithio fod Alan a Susan wedi mwynhau eu hunain ym Mharis.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mrs Christine Jones, 'Rhen Ysgol, at Griff Williams ag Eirwen, Ffordd Llanllechid, y ddau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, at Mrs Glenys Roberts, Hen Barc a hefyd at Mrs Augusta Williams Bron Arfon, y ddwy wedi treulio cyfnodau hir yn derbyn triniaethau.

Diolch

Mae Mrs Augusta Williams am ddiolch am yr holl gardiau, y rhoddion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd tra yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Nain a Thaid

Longyfarchiadau i Elaine a Gareth Hughes Ffordd Llanllechid ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch, Elin Haf, i Gwyn a Sophia a chwaer fach i Cian. Maent wedi ymgartrefu yn y Gaerwen, Sir Fon.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Llinos Bryn, Bron Arfon, ar ennill gradd arhwyddedd o Adran Fusnes, Prifysgol Bangor.

Capel Carmel, Llanllechid

Ar noson braf ym mis Mehefin, cafodd aelodau o Glwb Dwylo Prysus gyfle i gerdded o Rachub i ben Moel Faban. Wedi dringo'r allt drwy Caegllwyngrydd a mynd drwy'r giât i'r mynydd, cerddwyd ymlaen i fyny'r inclein cyn troi i'r chwith ar y llwybr i ben Moel Faban. Cafwyd cyfle yma i weld gweddillion y Cytiau Gwyddelod sydd yn y lle cyn hwn. Wrth edrych ar yr olygfa o Rachub a'r cyffiniau, roedd lliw'r garreg wyrddlas a phorffor i'w weld yn glir yn y tomenni chwareli bychain ar ochor y Foel. Wedi cyrraedd yn ôl i'r festri cafwyd swper bach cyn i bawb droi am adref.



**Cael pum munud cyn cychwyn yn ôl.
Mae Maggie Ann yr ast fach wedi blino hefyd!**

YR YSGOL SUL

Cafwyd tipyn o hwyl ym Mabolgampau'r Ysgol Sul a phawb yn cymryd rhan yn y rasys wy ar lwy, taflu bagiau ffa ac ati. Bu eraill ar y siglen a'r si-so hefyd cyn mwynhau hufen ia yn y festri ar ddiwedd y diwrnod.



Y gemau yn eu hanterth

Ar ddiwedd yr Ysgol Sul cafwyd cyfle i ddiolch i Mrs Siân Esmor Rees am ei gwaith fel athrawes weithgar yn yr Ysgol am nifer o flynyddoedd. Mae bellach wedi gorffen ei thymor gyda ni ac fel arwydd o werthfawrogiad am ei gwaith fe gyflwynwyd tussw o flodau iddi. Mae'n braf cael adrodd y bydd Mrs Anne Marie Jones yn ymuno â ni fel athrawes y dosbarth ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at ei chwmmi.



Mrs Rees gyda rhai o ddisgyblion yr Ysgol Sul

Arddangosfa Luniau



Astudio'r lluniau yn yr arddangosfa

Daeth tymor cyntaf Clwb hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid i ben gydag arddangosfa lwyddiannus o luniau o'r ardal yn Festri Capel Carmel ar y Sadwrn, 28 Mehefin. Mwynhaodd dros ddau gant a hanner o bobl yr Arddangosfa a oedd yn cynnwys oddeutu 450 o luniau wedi eu dosbarthu dan wahanol benawdau yn dangos cymeriadau'r ardal, lluniau o'r carnifals, yr ysgolion, y ddau ryfel byd a hefyd lluniau o hen fysiau a oedd yn eiddo i gwmnïau teithio'r ardal. Gobeithir cynnal yr un math o arddangosfa eto'r flwyddyn nesaf, felly mae dwy apêl i'w gwneud, sef, cadwch y Sadwrn olaf ym Mehefin yn rhydd a hefyd os oes gennych luniau o'r ardal byddai'r pwyllgor yn falch o gael eu benthyg am ryw ddiwrnod er mwyn eu sganio. Bydd y lluniau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r perchennog yn syth. Mae gennych ychydig fisoedd i chwilio'r atig, ond mae'r pwyllgor yn gofyn i chwi eu danfon mor fuan â phosibl a pheidio â'u cadw nes y bydd yn ben set. Mae aelodau'r Clwb am ddiolch i Brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen a staff Llyfrgell y Brifysgol am eu cydweithrediad parod. Bydd y Clwb yn ail agor y drysau ar y nos Fercher olaf ym mis Medi. Croeso i chwi ymuno.

Capel Bethel

Trefn Gwasanaethau

Gorffennaf 20 Parchg Dafydd Job

Gorffennaf 27 Nerys Griffiths

Awst – dim oedfaon

Medi 07 Mr J.O. Roberts

Medi 14 Gweinidog

Medi 21 Parch. Elwyn Jones

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Carmel, Llanllechid

Trefn Gwasanaethau

Gorffennaf 20 Canon Idris Thomas 5.00

Gorffennaf 27 Parch. Dafydd C. Williams 5.00

Awst Uno yn Jerusalem, 10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Medi 07 Parch. W.R. Williams 2.00

Medi 14 Parch. Ddr D.W. William 2.00

Medi 21 Parch. Gwyndaf Jones 5.00

Ysgol Sul: 10.30 y bore

Dwylo Prysus: Nos Wener 6.30 pm

Croeso cynnes i bawb

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Pen-blwydd arbennig
Dathlodd Richard Williams, Ciltrefnus, ei ben-blwydd yn 90 oed y mis diwethaf. Mae'n anodd credu'r peth, gan fod Richard yn edrych fel dyn ifanc, ac yn gyrru o gwmpas yr ardal yn ei gar yn rheolaidd. Llongyfarchiadau mawr, Richard, gobeithio i chi gael diwrnod bendigedig yn dathlu gyda theulu a ffrindiau.

Nain a thaid
Mae Rhian ac Idris, Ciltrefnus wedi dod yn nain a thaid ddwywaith o fewn cyfnod byr. Ganed mab bach, Theo, i'w merch, Meleri a'i phartner Karl, a ganed merch fach, Molly Ann, i'w merch Paula, a'i phartner, Siôn. Mae Molly yn chwaer fach i Lacey Ann a Jamie. Rydw i'n siŵr fod yr holl deulu wedi gwirioni efo'r ddau ifanc. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Deunaw oed
Rydym yn llongyfarch Glesni Haf Owen, Gwaun Gwail, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr, Glesni, gobeithio i ti fwynhau'r dathlu. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Hen daid
Rydym yn llongyfarch Richard Williams. Ciltrefnus, ar ddod yn hen daid unwaith eto, a hynny ddwywaith o fewn cyfnod byr. Ganed Jac yn fab i'w ŵyr, Gwion a'i bartner, Lisa, sy'n byw yn Stryd y Ffynnon, ac fe aned merch fach, Elliw, i'w wyres, Sioned, a'i phartner, Wyn, sy'n byw yn Llanrug. Llongyfarchiadau mawr i chi, Richard, ac i'r teulu i gyd.

Graddio
Llongyfarchiadau i Owain Rhodri Evans, Rallt Isaf, ar ennill gradd Anrhydedd 2.1 yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn ti, Owain, a phob dymuniad da i ti yn dy yrfa yn y dyfodol.

Pen-blwydd
Mae Ynyr Fôn Evans, Rallt Isaf, yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ddechrau mis Awst. Llongyfarchiadau mawr i ti, Ynyr; rydym yn dymuno pen-blwydd hapus iawn iti. Gobeithio y byddi'n mwynhau'r dathlu yn fawr iawn.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo'n fawr ag Rhian, Idris, a'r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli eu brawd-ynghyfraith, y diweddar Dafydd Davies, a oedd yn trigo yn Llain y Pebyll, Bethesda. Rydym yn cydymdeimlo hefyd â Myfanwy Jones, Gwernydd, a Linda Brown a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Dafydd, a oedd yn un o'r teulu.

Bardd cadeiriol
Balch iawn oeddem o glywed fod yna fardd o fri rhyngwladol yma

Rasio



Dyma Jamie (10 oed) o'r Gerlan gynt, ond erbyn hyn yn byw ym Mae Colwyn, Yn ddiweddar, daeth yn drydydd yn ei ras motor-beic gyntaf erioed yn yr Wyddgrug. Pob hwyl gyda'r rasio, Jamie.

yn ein plith yn y Gerlan. Enillwyd cadair mewn eisteddfod yn Oban yn yr Alban gan Gwenda Bowen, Stryd Hir, a hynny mewn cystadleuaeth boeth iawn yn erbyn nifer o feirdd eraill. Da iawn, Gwenda, ar ddod â chlod i'r ardal. Rydym yn sicr fod Gilbert yn arbennig o falch o lwyddiant ei wraig. Ymlaen yn awr i'r Genedlaethol, ac i Eisteddfod Dyffryn Ogwen wedyn.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo ag Eirian a Jeff, Ciltrefnus, a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli tad Eirian, y diweddar Roberts Iorwerth Evans, a oedd yn trigo yn Neiniolen. Pob cysur i chi yn eich profedigaeth.

Diolch
Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, trefnydd Raffl Fawr y Sioe Amaethyddol, ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo i wneud y raffl yn gymaint o lwyddiant. Diolch i'r rhai a fu'n gwerthu tocynnau ddiwrnod y sioe, a chyn hynny, ac i bawb a fu'n gweithio'n galed ar y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Llongyfarchiadau
Rydym yn llongyfarch pawb o'r Gerlan a fu'n cystadlu, neu a fu'n llwyddiannus mewn unrhyw fodd yn y Sioe Amaethyddol. Da iawn, bob un ohonoch

Diolch
Hoffai Rhian Jones, Ffordd Gerlan, ddiolch yn fawr iawn am yr holl dymuniadau gorau y mae wedi'u cael gan bawb yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref, boed yn alwadau ffôn, yn ymweliadau, yn gardiau, neu'n rhoddion. Mae'n gwerthfawrogi caredigrwydd pawb yn fawr iawn ac yn diolch

o waelod calon am haelioni pobl yr ardal.

Cofion
Mae nifer o drigolion y pentref wedi dioddef gwaeledd yn ddiweddar. Rydym yn anfon ein cofion atoch i gyd, ac yn dymuno gwellhad buan i bawb. Gan na fydd y Llais yn ymddangos yn ystod mis Awst, rydym yn dymuno gwyliau hapus i bawb o ddarllenwyr y Llais yn y Gerlan.

Priodas



Dyma lun o Bethan a Mathew Williams, Ffordd Gerlan, ar ddydd eu priodas yn Ynys Cyprus

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes,
Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Bingo
Cafwyd noson o Fingo yn y Ganolfan, Glasinfryn ar 20 Mehefin. Roedd yn noson hwyliog a llwyddiannus. Diolchwn i bawb am y gefnogaeth. Cynhelir noson arall o Fingo yn y Ganolfan, Glasinfryn, Nos Wener 18 Gorffennaf am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Te Mefus
Brynhawn Sadwrn 26 Gorffennaf, bydd Te Mefus yn cael ei gynnal yn Gwaunydd, Hafod Lon, Rhiwlas, am 4.00 yr hwyr. Mae Mair a Nia yn estyn croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad
Fel Eglwys anfonwn ein cydymdeimlad dwys at deuluoedd dwy o'n ffyddloniaid:

Ddechrau Mai derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth Mrs Eirlys Gordon Jones, Rhiwenfa, Rhiwlas. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei meibion Alvan a Kevin a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn.

Yna, ar 13 Mehefin, brawychwyd ni oll gyda'r newyddion trist am farwolaeth Mrs Margaret Jones (Anti Maggie), 2 Rhes Penrhyn, Waun Pentir. Anfonwn ein cydymdeimlad at Menai, Margaret ac Elwyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Mam, nain a hen nain annwyl dros ben.

Gwellhad
Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs. Mai Williams, Bro Rhiwen, Rhiwlas, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Gobeithio eich bod yn gwella Mai, ac y cawn eich gweld adref ym Mro Rhiwen yn fuan.

Clwb 100 Eglwys Sant Cedol Mis Mehefin 2014

1af Rhif 47 Ian Williams, Rhiwlas

2ail Rhif 10 Teulu 2 Rhes Penrhyn, Waun Pentir

3ydd Rhif 31 Alys Jones, Bethel

Gwasanaethau'r Sul
Cynhelir y gwasanaethau canlynol am 9.45 y bore. Mae croeso cynnes i chi ymuno:

20.7.14 Cymun Bendigaidd
27.7.14 Boreol Weddi
03.8.14 Cymun Teuluol
10.8.14 Boreol Weddi
17.8.14 Cymun Bendigaidd
24.8.14 Boreol Weddi

31.8.14 Gwasanaeth ar y cyd – Eglwys St. Cedol, Pentir 10am – yr unig wasanaeth yn y plwyf

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Tystysgrif i Dorothy

Brynhawn dydd Iau, 12 Mehefin, yn y Galeri, Caernarfon, cynhaliwyd 'Digwyddiad Dathlu a Diolch' Wythnos Gwirfoddolwyr 2014. Un o'r rhai a gafodd eu cydnabod oedd Miss Dorothy Hanks, Cae Gwigin, Tal-y-bont, am gyfraniad arbennig fel gwirfoddolwraig gyda



Chanolfan Wirfoddoli Gwynedd.

Dyma lun o Dorothy yn derbyn ei thystysgrif gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas. Mae Dorothy yn gwirfoddoli gyda Chymdeithas y Deillion, Gogledd Cymru ym Mangor hefyd. Llongyfarchiadau, Dorothy!

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siôn Kendrick, Lôn Ddŵr, sydd wedi cael swydd ym Mhenarlâg. Bydd yn dysgu'r Dyniaethau ac yn dechrau ym mis Medi. Pob hwyl i ti Siôn!

Priodas



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mark Jones, Bro Emrys, a Rebecca Currington o Hwlfordd, ar eu priodas yn Neganwy ym mis Mai.

Tai Cymunedol Talybont

Braf yw gweld hen ffrindiau yn symud yn ôl i Ddolhelyg a Chae Gwigin, i'r tai sydd wedi'u hadnewyddu. Mae pawb wrth eu boddau yn eu cartrefi "newydd".

Gorymdaith Brotest

Hyfryd oedd clywed Brandon a Lily yn sgwrsio yn Gymraeg ar y rhaglen deledu 'Ffeil'.

Bu rhieni a phlant Talybont yn gorymdeithio i Landygái fore dydd Gwener, 4 Gorffennaf, mewn protest yn erbyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i ddileu'r gwasanaeth bws o'r pentref i'r ysgol.

Ysbyty

Croeso adref i Ceirion Jones, 19 Cae Gwigin, ar ôl treulio ychydig o amser yn yr ysbyty. Brysya wella Ceirion!

Priodas



Priododd Lynette, merch John a Margaret Baston, Talybont, a Mark Jones yn Lindos, Ynys Rhodes, ar 19 Mehefin. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Capel Bethlehem Talybont

Oedfaon y Sul

Gorffennaf 20 Parchg. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan;

Gorffennaf 27

Parchg. Cledwyn Williams, Bangor;

Mis Awst Dim oedfaon;

Medi 7 I'w gyhoeddi;

Medi 14 Parchg. John Owen, Rhuthun;

Medi 21

Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Gweinidog Newydd

Yn dilyn ymdeoliad y Parchedig Geraint Hughes ddiwedd Hydref 2013, mae aelodau Bethlehem bellach yn edrych ymlaen at bennod newydd yn hanes yr eglwys o Ionawr 2015 ymlaen. Bryd hynny byddwn ni, ac Eglwys Annibynnol Carmel Llanllechid, yn ymuno â Gofalaeth Eglwysi Llanberis a Deiniolen dan weinidogaeth y Parchedig John Pritchard, Llanberis. Cyhoeddir rhagor o fanylion o hyn i ddiwedd y flwyddyn.

Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ddau o'n haelodau sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty rai wythnosau'n ôl. Da deall bod Llewelyn Jones ac Augusta Williams yn dal i wella.

Cydymdeimlad

Mae Iola Williams, 5 Cae Gwigin, wedi colli ewythr yn Rochdale yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth.

Te Mefus

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i'r

Te Mefus llwyddiannus a gynhaliwyd yn y festri ar nos Fercher, 2 Gorffennaf. O ganlyniad i'r rhoddion hael o arian a nwyddau a dderbyniwyd, a gwaith caled aelodau a ffrindiau, gwnaed elw o fwy na £600.00 tuag at y capel.

Yr Ysgol Sul

Bu cyfarfod olaf yr Ysgol Sul, a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf yn fore o hwyl i'r plant. Cawsant fwynhau eu hunain yn chwarae gemau ac wrth gwrs, cawsant rywbeth i'w fwyta ac i'w yfed.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail agor ar fore Sul, 14 Medi, am 10 o'r gloch.

Bwrlwm Bethlehem

Daeth tymor difyr arall i ben gyda'r aelodau yn mwynhau swpera gyda'i gilydd yng Nghlwb Golff Caernarfon. Cawn seibiant dros wyliau'r Haf cyn ailgychwyn ar ddechrau mis Medi.

Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd Te Mefus yn yr Ysgoldy ar y Sadwrn cyntaf o fis Mehefin. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ar y diwrnod ac am y rhoddion at y stondinau a'r raffl, Gwnaed elw o dros £717. Diolch hefyd i Phyllis Davies a'r tîm am drefnu'r achlysur llwyddiannus.

Mae pawb yn falch o weld Brian Hughes, 28 Bro Emrys wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref ac yn teimlo'i hun yn cryfhau bob dydd. Gwella hefyd yw hanes Gracie Griffiths yn dilyn damwain i'w choes yn ddiweddar.

Brynhawn Sadwrn, 28 Mehefin, cynhaliwyd Garddwest flynyddol yn ficerdy Pentir. Agorwyd y ffair gan y cynghorydd Dafydd Meurig. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion at yr achos. Gwnaed elw o dros £2,000 i'w rannu rhwng y tair eglwys. Diolch hefyd i Sue Matthews a'r tîm am eu gwaith caled o drefnu'r prynhawn llwyddiannus.

Cynhaliwyd gwasanaeth undebol ar Sul olaf y mis yn Eglwys St Mair Tregarth dan arweiniad ein ficer y Parch John Matthews, yn cael ei gynorthwyo gan Martyn Lewis gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Yn dilyn y gwasanaeth fe aeth rhai o'r aelodau i'r Split Willow yn Llanfairfechan i fwynhau cinio dydd Sul blasus. Diolch i Phyllis Davies unwaith eto am ei drefnu.

Llongyfarchiadau i Cora Hutchinson, Melin Cochwillan, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Mehefin.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái
☎ 353886

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs Merfyn Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn o golli nith i Merfyn ar 17 Mehefin, sef Karolyn Baynharn o Ynys Môn. Cynhaliwyd ei hangladd ar 26 Mehefin yn Amlogsgfa Bangor.

Gwaeledd

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed i Mrs Iona Jones, Dyma Fo, Pentre Llandygái, orfod

mynd i Ysbyty Gwynedd i gael triniaeth ar ôl cael ei phigo pan oedd yn yr ardd. Gobeithio y byddwch yn gwella'n fuan, Iona – rhowch y gwaith garddio i Denzil o hyn ymlaen!!

Anfonwn ein cofion annwyl at Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Iwan Harper, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Gobeithio bod y tywydd braf a gawsom ni'n ddiweddar wedi gwneud lles i chi.

Dymunwn wellhad buan i Jane Couch, Gwyn Edwards, Siân Evans, Dorothy Hanks, Jackie Williams, Keith a Linda Irons a phawb arall sydd yn wael ond yn hoffi bod yn ddiennw. Roeddem yn falch iawn i glywed fod y Parchedig J. Aelwyn Roberts wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd a'i fod yn dechrau gwella. Gofalwch gymryd pwyll o hyn ymlaen Mr Roberts.

Cadeirydd Newydd

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Mrs Mair Leverette ar gael ei hethol yn gadeirydd am y flwyddyn 2014/15 ar Gyngor Cymuned Llandygái. Pob lwc i chi Mair.

Arholiadau

Pob lwc i bawb sy'n disgwyl eu canlyn-iadau TGAU a Safon Uwch yn ystod mis Awst a gwyliau hapus i'r plant i gyd.

Eglwys Sant Tegai

Te Mefus

Ar 7 Mehefin cynhaliwyd Te Mefus rhagorol yn Ysgoldy Talybont. Roedd yn brynhawn difyr a phawb yn mwynhau eu hunain. Diolch o galon i Phyllis, Muriel, Sue, Bethan a phawb arall a fu'n brysur yn paratoi'r wledd a'i gwneud yn llwyddiant – roedd yr elw'n profi hynny.

Pen-blwyddi

Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus i Mrs Jane Couch ar ddydd Mawrth, 29 Gorffennaf. Bydd y Parchedig J Alwyn Roberts yn dathlu ei ben-blwydd yntau ym mis Awst. Gobeithio y bydd y ddau ohonoch wedi gwella'n ddigon da i fwynhau eich hunain gyda'r teulu.

Graddio

Llongyfarchiadau i Gwenan Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, ar lwyddo'n anrhydeddus ac ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Manceinion. Gelli fwynhau dy wyliau yn awr Gwenan, a phob lwc i ti yn y dyfodol.

Gwerthiant

Diolch o galon i Dorothy, Rhian a Nerys a phawb arall a fu'n helpu drwy'r dydd ar y stonin yn Ysbyty Gwynedd ar 20 Mehefin – gwnaed elw o £79 i Sant Tegai.

Bedydd

Fore dydd Sul, 15 Mehefin, yng Ngwasanaeth y Cymun Bendigaid bedyddiwyd teulu Van Blydenstein, Marie a Melanie Blydenstein, Glenys, Eleanor a Callum Williams a Dillon Jones. Y Parchedig John Matthews oedd yn gweinyddu a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Bendith Duw ar y teulu i gyd.

Garddwest y Tair Eglwys

Ddydd Sadwrn, 28 Mehefin, cynhaliwyd garddwest yn Ficerdy Pentir a bu'n llwyddiant mawr, gyda'r elw dros £2,000. Roedd y tywydd yn siomedig ond y trefnwyr a'r stoninwyr wedi gwneud gwaith rhagorol.

Cafodd John drochfa dda, ond roedd yn mwynhau ei hun yn arw! Balch oeddem o gael croesawu ein cynghorydd, Mr Dafydd Meurig, i agor yr arddwest. Diolch iddo ef ac i John a Sue am agor eu tŷ a'r ardd i ni.

Gwasanaeth Undebol

Fore Sul, 29 Mehefin, cynhaliwyd ein gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth gyda'r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu ac aelodau o'r tair Eglwys yn cymryd rhan. Diolch am eich croeso. Mynd wedyn i'r Split Willows, Llanfairfechan am ginio a chael bwyd ac amser ardderchog. Diolch o galon i Phyllis ac aelodau Maes y Groes am drefnu popeth ac i staff y Split Willows. Diolch i Nerys hefyd am gasglu enwau ac arian pawb oedd yn mynd o Sant Tegai. Diolch personol oddi wrthyf finnau am y lifft i'r Gelli, yna i Lanfairfechan ac adref. Rydych yn garedig iawn Nerys.

Sefydliad y Merched

Croesawodd Eira, ein llywydd, bawb i gyfarfod Mis Mehefin ar nos Fercher y 25ain.

Cafwyd sawl ymddiheuriad am absenoldeb. Darllenodd Eirlys gofnodion mis Mai a chafwyd nhw'n gywir. Roedd sawl mater yn codi o'r cofnodion a bu trafod arnynt.

Darllenodd Eira lythyr y Ffederasiwn, yna cyflwynodd y siaradwr, sef Glyn Price. Gweithiwr gyda phobl ifanc a'r gymuned yw Glyn, ond heno roedd yma i ddangos i ni sut i arlunio. Cawsom hwyl fawr yn ei gwmni a daeth yn amlwg fod nifer o ddarpar arlunwyr yn ein plith!

Diolchwyr yn gynnes iddo gan Norma.

Mynydd Llandygái

Theta Owen

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Clwb Garddio

Cafwyd deunaw o erddi yn agored yn y pentref. Tywydd braf a 70 o bobl wedi dod. Pawb wedi mwynhau. Roedd lluniaeth yn Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair. Diolch yn fawr am y gefnogaeth a diolch hefyd am y gwaith ardderchog yn y gerddi.

Brysiwch Wella

Mae llawer ohonoch yn cwyno ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion atoch a dymunwn adferiad buan i chi.

Y Neuadd

Ni fydd y clybiau'n cael eu cynnal yn y neuadd dros fis Awst! Gwyliau hapus! Welwn ni chi eto ym mis Medi!

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gorffennaf 20: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 27: Boreol Weddi
Awst 3: Gwasanaeth Teuluol
Awst 10: Cymun Bendigaid
Awst 17: Cymun Bendigaid
Awst 24: Boreol Weddi
Awst 31: Cymun Bendigaid (Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys y Santes Ann (yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Dechreuir am 9.45 Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cyngerdd nos Wener, 8 Awst yn yr eglwys. Am fwy o fanylion gweler yr hysbysfwrdd ddechrau mis Awst.

Cynhelir y "Bore Coffi" blynyddol fore Sadwrn, 13 Medi am 10.00 o'r gloch yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda gan fod Neuadd Ogwan yn cael ei hatgyweirio. Diolch i Gaffi Coed y Brenin am eu caredigrwydd.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref neu unrhyw wasanaeth arall, cysylltwch â'r Wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Cofiwch am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd; anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Anrhydeddu Pencampwr

Yn ddiweddar, cafodd Y Cynghorydd Gwen Griffith, Mynydd Llandygái, y fraint o gael ei henwi yn Bencampwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth oherwydd ei gwaith diflino i'r Trydydd Sector am y trigain mlynedd ers iddi gychwyn gwirfoddoli, ac yn sgil ei gwaith fel Cynghorydd dros ardaloedd Tregarth a Mynydd Llandygái.



Mae Gwen yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd am yr ail flwyddyn erbyn hyn hefyd, ac yn ddiweddar cafodd rannu llwyfan yn Nhe Dathlu a Diolch i Wirfoddolwyr Gwynedd yn y Galeri gyda'r Arglwydd Ellis Thomas, a Phrif Weithredwr Mantell Gwynedd, Bethan Russell Williams.

Mae wedi bod yn Ymddiriedolwr a Chadeirydd Hawliau Lles Anabledd ers blynyddoedd lawer, ac mae'n edrych ymlaen at ei swydd newydd yn sicrhau tegwch i bobl Gwynedd.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Cydymdeimlo

Brawychwyd y pentref gan farwolaeth sydyn ac annisgwyl Mrs Eirlys Jones, Rhiwenfa, neu Eirlys Gordon fel y cyfeirid ati gan amlaf. Fe'i magwyd ym Mhentir ac roedd yn briod â'r diweddar John Francis Jones, un o Lanllechid yn wreiddiol, ac yn ôl bob sôn cyfarfu'r ddau yn Ffair Llan. Wedi geni'r ddau fab, Alvan a Kevin, symudodd y teulu i fyw i Rhiwenfa. Roedd Eirlys yn gymeriad hynod o gyfeillgar, caredig a hwyliog bob amser. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Cedol, Pentir, lle bu'n organyddes am sawl blwyddyn ac roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch John Matthews. Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Alvan a Kevin a'u teuluoedd, a'r perthnasau agosaf.

Dymuna Alvan a Kevin a theulu'r ddiweddar Eirlys Gordon Jones ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i Dylan Griffith, y Trefnydd Angladdau, am yr holl drefniadau. Cafodd y rhoddion a gasglwyd eu rhannu rhwng Ambiwllans Awyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Cŵn Cymru.

Llongyfarch

Derbyniodd y canwr adnabyddus, Steve Eaves, ddoethuriaeth anrhydeddus gan y Brifysgol Agored am ei gyfraniad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Yn y seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, dywedodd Rob Humphreys, cyfarwyddwr y Brifysgol Agored fod ei ddawn arbennig i drin geiriau yn hudo ac yn cyffwrdd calon y gwrandawr. Dechreuodd ei yrfa fel canwr dros ddegain mlynedd yn ôl ac ers hynny mae wedi rhyddhau deg albwm o ganeuon ac wedi cyhoeddi dwy gyfrol o farddoniaeth. Mae'n hawdd iawn anghofio mai dysgu'r Gymraeg a wnaeth wedi symud i weithio i Gymru. Llongyfarchiadau calonnog iddo.

Pleser hefyd yw llongyfarch Dylan Jones, gynt o Bron y Waun, ar ei apwyntiad yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Glan Clwyd. Bu Dylan a'i dad, Tony Jones, yn sgwrsio ar Radio Cymru'n ddiweddar, y ddau ohonynt yn rheolwyr ar dimau pêl-droed, y naill ym Mynydd Llandygái a'r llall yn Aberffraw. Yn ôl pob sôn, cafodd y ddau dîm dipyn o lwyddiant yn ystod y tymor diwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Glenys a Tony ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach i Dylan a Bethan, Beca Fflur, a hithau'n chwaer fach i Sera Lois

Merched y Wawr

I ddiweddu'r tymor fe aethom am bryd o fwyd i dafarn Gardd Fôn, Y Felinheli. Cawsom noson ddifys a chriw da wedi troi allan. Roedd pawb o'r farn ein bod wedi cael rhaglen ddiddorol y tymor hwn. Diolchwyd i Carys am drefnu'r noson ac am ei gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Annes yw'r ysgrifennydd am y tymor i ddod ac mae'r swyddogion eraill yn parhau yn eu swyddi. Byddwn yn ailddechrau ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi. Croeso i aelodau hen a newydd, a dysgwyr wrth gwrs.

Clwb Rhiwen

Ddydd Mercher, 11 Mehefin, fe aethom i ymweld â chaffi a siop Bwyd Cymru ym Modnant. Roedd y tywydd yn hynod o ffafriol, a braf oedd cael paned yn yr haul. Rhaid diolch i Dilys am drefnu'r cludiant drwy Age Cymru

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mrs Cathy Owen a'r teulu ar farwolaeth ei thad, Arthur Williams, o Dregarth. Fe ddaeth ef a'i briod, Enid i Riwlws o Lerpwl ar ddechrau'r 60au i gadw'r siop a'r Swyddfa Bost. Roeddent yn hynod o groesawgar bob amser ac roedd yn bleser mynd i'r siop. Ymhen amser symudodd y teulu i Bronydd, heb fod nepell o'r pentref, ac fel Arthur Bronydd y byddai pawb yn ei adnabod. Ymsefydlodd ef a'i wraig wedyn yn Nhregarth ond dalient i gadw cysylltiad â'r pentref. Anfonwn ein cofion at y teulu i

gyd.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Deanna Price. Un o Dregarth ydoedd hi, a daeth hi a'i diweddar ŵr i ffermio i Tros y Waun, fferm mewn llecyn braf iawn. Bu'n aelod o Ferched y Wawr am sawl blwyddyn, yn dod yn selog, ond byth ar amser! Estynnwn ein cofion at Dyfed a Delyth a'u teuluoedd.

Cofio Mrs Margaret Jones

Ar 13 Mehefin, bu farw Mrs Margaret Jones, Penrhyn Terrace, yn 96 mlwydd oed, y person hynaf yn y pentref. Roedd iddi sawl enw, Magi Rynys, Magi Huw Ben, ac Anti Magi i genedlaethau o blant. Fe'i ganwyd ar fferm Pentre, i fyny'r Nant, lle a oedd yn annwyl iawn iddi hyd y diwedd. Mynychodd hi a'i brawd ysgol Pen Llyn Ogwen ond fe gaewyd yr ysgol yn ystod eu hamser yno. Yn y cartref, roedd llun yn ei dangos hi a'i brawd Wil ar eu diwrnod olaf yn yr ysgol, ac oddi tano eglurwyd i'r ysgol orfod cau oherwydd yr "economi". Does fawr ddim yn newid, nagoes?

Ganed pedwar o blant iddi hi a'i phriod, Huw Ben, sef y ddiweddar Olive, Menai, Margaret ac Elwyn. Bu'n wraig brysur gydol ei hoes. Mae llawer ohonom yn ei chofio'n reidid beic i Landdeiniolen ac i Tŷ Mawr. Hefyd ar ôl prynu Ty'n y Weirglodd, byddai'n cerdded i fyny ac i lawr sawl gwaith y diwrnod, beth bynnag fo'r tywydd, i fwydo'r ieir a'r anifeiliaid, a Fly neu Nel wrth ei chwt.

Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Siôr, Rhiwlas ac yna yn Eglwys Sant Cedol, Pentir. Hefyd bu'n aelod o Ferched y Wawr ers sefydlu'r gangen, ac wrth ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed, cyflwynwyd englyn iddi o waith Annes Glyn. Hefyd bu'n aelod selog o Glwb Rhiwen a phob amser yn mynnu golchi'r llestri. Roedd plant yn bwysig iddi ac roedd yn nain hwyliog i'w hwyrion a'i hwyresau a'u plant hwythau hefyd, a braf oedd gweld cynifer ohonynt yn yr angladd. Ni fu'n dda ei hiechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond eto parhâi i ymddiddori yn nigwyddiadau'r pentref ac i ddarllen y Daily Post bob dydd, heb sbectol! Cafodd ofal arbennig gan y plant a bydd colled ar ei hôl.

Daeth torf dda i'r angladd yn Eglwys Sant Cedol gyda'r Parchedig Ddr. Carol Roberts a'r Parch. Christina McCrea yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r plant a'r teulu i gyd yn eu colled.

Gweler y deyrnged i Mrs Margaret Jones, gan Emlyn Thomas, ei mab-yng-nghyfraith.

Chwaraeon

Ar ddiwrnod cyntaf pencamp-wriaeth Wimbledon eleni, pleser oedd clywed **Cai Llwyd**, Bron y Waun, a'i dad, Gareth yn trafod tenis. Mae Cai wedi ymddiddori yn y gêm ers yn ifanc iawn ac wedi cael llwyddiant mewn llu o gystadlaethau. Fe fydd yn

Cofio Margaret Jones, 2 Penrhyn Terrace, Rhiwlas

Er mai fel Maggie 'Rynys neu Anti Maggie yr oedd hi'n cael ei hadnabod i lu o blant Rhiwlas, mam-yng-nghyfraith annwyl oedd hi i mi. Un o fferm Pentra, Dyffryn Ogwen oedd hi yn wreiddiol, ac yno y bu'n byw tan yn ddeg oed. Gadawodd waelod y dyffryn argraff ddofn iawn ar ei phersonoliaeth ac er iddi fyw yn Rhiwlas am dros 70 o flynyddoedd, dwi ddim yn meddwl y bu i'w henaid erioed adael Ogwen. Yn ei blwyddyn olaf, a hithau gyda'i meddwl yn ddryslyd ar brydiau, yn Pentra oedd hi drwy'r adeg ac yn sôn am gymeriadau yr oedd yn eu cofio ym Mraich Tŷ Du, Blaen Nant a Maes Caradog. Rhaid peidio ag anghofio dylanwad yr ysgol arni ychwaith, a hi a'i brawd Wil oedd y rhai olaf a fu yn yr ysgol cyn iddi gau yn niwedd y daudddegau. Ysgol Eglwys oedd ym mhen Llyn Ogwen ydoedd, ac fel rhan o'i haddysg cafodd ei thrwytho yng ngwasanaethau a gweddïau'r eglwys a hyd ei dyddiau olaf, roedd yn gallu ailadrodd nifer fawr o adnoddau a gweddïau o'r Llyfr Gweddi Cyffredin.

Yn ddeg oed, symudodd y teulu i'r 'Rynys, Llanddeiniolen, fferm a oedd yn llawer haws i'w hamaethu o'i chymharu â'r llethrau sgythrog yr oedd wedi arfer eu dringo, ac wedi gorffen yn yr ysgol uwchradd yng Nghaerarnfon, a dref i weithio ar y fferm yr aeth hi. Ymhen y rhawg, cyfarfu â Huw Ben o Riwlws, a phriodwyd y ddau, gan ymgartrefu yn Lôn Plas Rhiwlas.

Ychydig o flynyddoedd a dreuliodd yn Lôn Plas, gan i'r teulu symud i Benrhyn Terrace, a oedd ond ychydig lathenni o'i thy gwreiddiol. Yn fuan wedi symud, torrodd y rhyfel allan ac er na fu i Huw na Maggie sôn am y cyfnod, mae'n siŵr bod hwn wedi bod yn anodd iawn iddi, gyda'i gwŷr yn y Lluoedd Arfog yng ngwlad Belg a hithau adra hefo tair o enethod bach ac angen talu rhent i Arglywyd y Penrhyn. Ond roedd rhyw ddyncwch a gwytnwch yn perthyn i bobl ei chyfnod hi.

Rhaid sôn am y nos Sadyrnau yr oeddem fel teuluoedd yn eu treulio yn Rhiwlas. Teulu Talmignedd yn hwyr yn cyrraedd fel arfer, Teulu Abererch, a ninnau o'r Wyddgrug ac Elwyn ond glaslanc bryd hynny. Amaeth oedd y pwnc trafod gan amlaf a Nain wrth ei bodd yn cyfrannu at y sgwrs drwy dynnu o'i phrofiad helaeth.

Un o ddiddordebau mawr Maggie oedd plant, ac mae'r ffaith iddi wirfoddoli i weithio yn yr ysgol Feithrin yn Rhiwlas, a hithau ymhell yn ei wythdegau, yn dyst i'r diddordeb hwnnw. Doedd nain ddim beth maen nhw'n ei alw erbyn heddiw yn P.C. a doedd ots ganddi weithiau beth yr oedd yn ei ddweud, a chan ei bod yn drwm ei chlyw, roedd yn gwbl amlwg i bawb beth oedd yn mynd trwy ei meddwl. Clywais Menai yn dweud llaweroedd o weithiau 'Byddwch ddistaw mam' ond erbyn hynny roedd yn rhy hwyr a phawb wedi clywed. Fodd bynnag roedd plant y pentra wrth ei boddau fod gan ddynes o oedran Nain elfen blaen i'w hiwror a'i bod yn barod i chwalo confensiynau parchus cymdeithas. I'r plant acw, roedd nain yn 'cwl' yn gwneud y fath beth.

Un nodwedd arall o'i phersonoliaeth oedd ei dyfalbarhad i gadw dyddiadur. Fel arfer mae'r sawl sy'n nodi yn cofnodi ei adwaith i'r hyn sy'n digwydd o'i gwmpas boed hynny yn wleidyddol neu'n gymdeithasol, ond nid Nain. Os oeddem eisiau cadarnhad bod y plant acw wedi cael y frech goch neu'r frech ieir, neu pa bryd y bu i'r fuwch fynd gyda'r tarw neu pan ddaeth â llo, yna byddai Nain yn plannu i'r dyddiaduron a chael yr ateb. Dim ond yr hyn oedd yn bwysig i'w bywyd beunyddiol oedd hi'n ei goffâu, ac yn sicr roedd y teulu a materion yn ymwneud ag amaeth o bwys mawr iddi. Yn gymharol ddiweddar yn ei hoes, prynodd Huw a hithau dir o'r enw Tan Weirglodd yn Rhiwlas, ac o'r diwedd, cyrhaeddodd uchelgais ei bywyd, sef cael bod yn ffarmwraig.

Mi fedrwn fynd ymlaen am amser yn adrodd storiâu amdani boed hynny ar ei beic neu'n papuro mewn gwahanol dai, a llu o bethau eraill y bu'n ymwneud â hwy, ond gwell teui gan fod i'r rhai oedd yn ei hadnabod atgofion personol eraill sy'n llawn mor werthfawr.

Mae gan y bardd Dic Jones gwpld anfarwol sy'n mynd fel hyn:

*"Mae alaw pan ddistawo
yn mynnu canu yn y cof"*

ac er na chlywn lais nain eto, rwy'n siŵr y bydd sawl stori am Maggie Rynys yn mynnu canu yn y cof.

Emlyn P. Thomas

mynychu Wimbledon eleni eto. Pob lwc i ti yn y dyfodol Cai.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i **Cai Smith**, Rhos Uchaf, sy'n aelod o glwb karate SEKI RYU ZAN ym Mangor.



Cai Smith

Yn ddiweddar bu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Cymerodd ran ym Mhencampwriaeth Goffa Pete Hughes ac roedd clybiau o Nefyn, Amlwch, Bangor a Chaernarfon yn cystadlu yn erbyn ei gilydd o dan adain Karate Traddodiadol Cymru. Roedd Cai'n cystadlu mewn pedwar gwahanol ddsbarth a chafodd dair gwobr gyntaf ac un ail wobwr. Ardderchog Cai, dal ati.

Derwydd Môn

Yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Môn Bro Goronwy a'r Cylch 2015 yn Benllech ym mis Mai, urddwyd Annes Glynn, Bwthyn Cefn Braich, yn Dderwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Môn am dymor o dair blynedd.

Ei henw yn yr Orsedd yw 'Annes Bryn' sy'n cyfeirio at ei gwreiddiau ym Mrnsiencyn, Môn ac fe'i hurddwyd yn wreiddiol yn 2008. Ers hynny bu'n gweithredu fel Bardd yr Orsedd a bu'n Ddirprwy Dderwydd Gweinyddol i'r ddiweddar Siân Owen, Marian-glas, a oedd yn ffrind da iddi. Bu farw Siân yn anhymig fis Hydref diwethaf ar ôl dioddef o ganser ers sawl blwyddyn, ond fe lwyddodd i gwblhau ei thymor fel Derwydd Gweinyddol yn gyflawn er gwaethaf hynny.

"Profiad chwerw-felys oedd y seremoni urddo i raddau gan mai Siân oedd i fod i drosglwyddo'r awenau bryd hynny," meddai Annes. "Ond dwi'n ymwybodol iawn fy mod i mewn olyniaeth go arbennig ac yn sicr bydd cofio am gyfraniad graenus Siân i Orsedd Môn yn ysbrydoliaeth i minnau yn y swydd."

Yn ystod seremoni'r Cyhoeddi, cafodd Annes y fraint o urddo aelodau newydd i'r Orsedd, yn eu plith y cyn-aelod Seneddol a'r cyn-aelod Cynulliad Ieuan Wyn Jones.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Megan a Glyn Jones o 6 Hendyrpeg. Mae Megan wedi derbyn Gradd Dosbarth 1af yn Y Gyfraith o Brifysgol Queen Mary, Llundain a Glyn wedi derbyn Gradd 2:1 mewn Geneteg o Brifysgol Sheffield. Pob dymuniad da i Megan yn ei swydd newydd gyda'r BBC ym Mangor ac i Glyn sydd wedi cael swydd fel Cymhorthydd Dysgu yn Rotherham!

Dathlu

Llongyfarchiadau i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, ar ddatlu eu Priodas Ruddem ddechrau mis Gorffennaf. Wedi treulio'r pedair blynedd gyntaf o'u bywyd priodasol yng Nghanaada, ymgartrefodd y teulu yn Nhregarth, lle maent wedi bod yn hynod o hapus. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Diolch

Dymuna Fred Buckley, Maes Ogwen, ddiolch i bawb am bob cerdyn, anrheg a dymuniad da a dderbyniodd wedi iddo ddatlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Llinos Haf, merch Elfed ac Einir Williams, Tal y Cae, ar ei dyweddiad ag Arwel Wyn, mab David a Nerys Evans, Dyffryn, Llanrhaeadr, Dinbych. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Profedigaeth

Ar 6 Mehefin, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Arthur Griffith Williams (Arthur Bronydd) o Cwr y Coed, Tan y Bryn, Tregarth yn 82 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i briod Enid, ei blant Dewi, Gareth, Cathy, Beth a Siôn, 17 o wyrion a 6 o or-wyrion. Roedd Arthur yn frawd i Gwyn, Bob, Trefor a'r diweddar John. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys y Gelli, ar 13 Mehefin.

Ar 21 Mehefin, yn ei gartref Derlwyn, Tregarth, ac yntau'n 57 mlwydd oed, bu farw Ieuan Wilson Evans. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at ei briod Kath ac at yr holl deulu yn eu tristwch. Roedd Ieuan yn gyn-weithiwr i Gyngor Sir Gwynedd ac yn ddiweddarach bu'n gweithio gyda *Northgate Information Solutions*. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Bangor ar 3 Gorffennaf.

Daeth newyddion trist am un a fagwyd yn Nhregarth, sef Deanna Wynn Price, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 22 Mehefin yn 73 mlwydd oed. Roedd ei

chartref yn fferm Tros y Waen, Pentir, ac roedd yn briod â'r diweddar Percy Wyn. Cydymdeimlwn â'i phlant Dyfed a Delyth, ei hwyron Iwan, Cian, Iestyn, Joshua, Iorwerth, Charley a Holly. Roedd Deanna yn chwaer i Edward ac yn chwaer-yng-nghyfraith i Joyce, Dob, Tregarth, ac anfonwn ein cofion atoch i gyd fel teulu.

Graddio

Llongyfarchiadau i Delyth Owen Davies, Carreg Bach, Ffordd Ffrydlas, Bethesda sydd wedi graddio ac ennill diploma 'Nebosh', sef 'National Diploma Occupational Health and Safety' ym Mhrifysgol Warwick.

Mae Delyth yn ferch i Gwen ac Alwyn Owen, 25 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, yn briod ag Owen Arwel ac yn fam i Cerys, Elli a Tomos. Llongyfarchiadau Delyth gan bawb o dy ffrindiau yn Nyffryn Ogwen.

Capel Shiloh

Gwasanaethau

Cofiwch am yr Ysgol Sul bob bore Sul am 10.30. Oedfa 5.00 oni nodir yn wahanol

Gorffennaf 20

Parchedig Philip Barnett

Gorffennaf 27

Parch. W.R Williams, Y Felinheli
Mis Awst Dim gwasanaethau nac Ysgol Sul yn ystod Mis Awst

Medi 7

Parchedig Gwynfor Williams

Medi 14

Diacon Stephen Roe

Medi 21

Parchedig Geraint Roberts

Medi 28

Trefniant Lleol

Miri Mehefin

(Cymanfa Ysgolion Sul Arfon)

Diolch o waelod calon i gyfeillion Capel Ebeneser, Caernarfon, am eu croeso cynnes i Miri Mehefin, sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon, a gynhaliwyd ar bawn Sul, 22 Mehefin. Roedd y canu yn ardderchog dan arweiniad medrus Huw Edward Jones, Llanfairpwll, gyda Mrs Helen Williams, Llanllechid yn cyfeilio. Roedd 'na gynulleidfa dda wedi dod i gefnogi'r gweithgareddau a chafwyd Te Parti gwerth chweil i gloi prynhawn llwyddiannus iawn. Diolch i aelodau Ysgol Sul Shiloh hefyd a fu'n casglu at y genhadaeth eleni, sef Hannah a Joshua Williams; Nel Mai, Myfi Celyn ac Ifan Rhys Cooke; Siwnamis, Elysteg a Caleb Lleu Efans; Gwenno ac Iestyn Roberts.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Mai

17 Bessie Buckley	£15
25 Arthur Williams	£10
36 Dafydd Roberts	£5

Mis Mehefin

21 Ann Jones	£15
40 Sulwen Roberts	£10
2 Owenna Jones	£5

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Gorffennaf 27 Cymun 9.45

Awst 3 Boreol Weddi 9.45

Awst 10 Cymun Bendigaid (un Gwasanaeth yn y Plwyf) 11.00

Awst 17 Yn Eglwys St Tegai 11.00

Awst 24 Cymun Bendigaid 9.45

Awst 31 Eglwys Maes y Groes 10.30

Enillwyr Clwb Cant

£15	89	Howyn Jones
£10	63	Margaret Hughes
£5	27	Catrin Roberts

Garddwest y Tair Eglwys

Er gwaethaf y cymylau a'r glaw a oedd yn bygwth, bu'r Arddwest a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 28 Mehefin, yn llwyddiant mawr. Daeth nifer dda ynghyd i gefnogi'r amrywiol stondinau a diolchwyd i bawb gan y Ficer, y Parchedig John Matthews, ar ddiwedd y prynhawn.

Dyma restr o enillwyr y Raffl:

- £100 Huw, Achnashean
- £50 Ann Williams, Llandygái
- £25 C. Hogg (Cymorth Llaw)
- Ffrog gan Holly Willoughby S.Morris, Llanfairfechan
- Tocyn Teulu Gelli Gyffwrdd N.Jones, Bethesda
- Dau docyn Pantomeim M. Wilcox, Aberporth
- Tocyn Teulu Portmeirion E.Badley, Biwmares
- Hamper Morrisons
- J. Radcliffe, Llandygái
- £20 'One 4 all'
- J. Longmore, Dwygyfylchi
- Tocyn Teulu Pili Palas Ann Morgan
- Tocyn Teulu Sŵ Môr J.Radcliffe
- Dau docyn i Bafiliwn Rhyll C. Jones, Glynllifon
- Tocyn £20 Gwesty Victoria, Llanberis Hefina Chamberlain, Llandygái
- Tocyn Teulu Gypsy Wood Teulu Roberts
- Tocyn Teulu Rheilffordd Llyn Padarn Caitlin Watts
- Tocyn Teulu Fferm y Foel Bernard, Llandwrog
- Tocyn Teulu Hwylfan J. Bayliss
- £15 Tesco Sophie Hopkins
- Hamper M+S Rhiannon Sturrs
- Darlun E.Ellis, Talybont
- Darlun ar ganfas Huw Llywelyn Jones
- Hamper Masnach Deg John a Christine, Benllech
- Dau docyn Sŵ Bae Colwyn H.M.Jones, Llandygái
- Whisgi Trixie Ewing
- Llyfr David Essex Olga Jones
- Gwin Janet Hughes
- Cyw Iâr Louise Davies, Bangor
- Gwin Janet
- £20 'Dimensions' Rosemary Williams
- Hamper Ffrwythau a Llysiau Teulu Atkinsons
- Bocs Te Eirlys Edwards. Ll'gái
- Sherry Muriel, Llandygái
- Gwin Alan Hughes, Talybont
- Bag Molchi D.M. Davies, Porthaethwy
- Gwin Rhian Jones, Tregarth
- Gwin J. Turner, Pentir
- Sebonau Muriel Williams, Tregarth
- Potel Siampaen Mary Jones, Bethesda
- Gwin Laura Jones, Tregarth
- Bag H. Hughes, Bontnewydd

Gyda llawer o ddiolch i'r cwmnïau, y siopau a'r unigolion a gyfrannodd y gwobrau at y Raffl. Heb y rhain ni fuasai cymaint o llwyddiant. Diolch i bawb a werthodd y tocynnau.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasingfryn, Bangor LL57
4UP

01248 351067

Marred567@btinternet.com

Te parti

Cynhaliwyd te parti i godi arian at yr elusen *Marie Curie Cancer Care* ar 28 Mehefin ym Mro Eryri, Waen Wen (cartref Dewi a Marian Bryfdir Jones). Galwodd nifer o gymdogion o'r ardal a ffrindiau heibio i fwynhau panad a chacen, a sgwrs. Casglwyd £230 at yr elusen ac mae Dewi a Marian yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at y diwrnod. Diolch o galon i chi i gyd am eich cefnogaeth.

Sefydliad y Merched Glasingfryn a Chaerhun

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad ar 11 Mehefin gyda Mrs Mair Griffiths yn y gadair. Darllenwyd y Cofnodion gan Mrs Ingrid Farrar. Roedd amryw o'r aelodau wedi bod ar ymweliadau amrywiol – *Peter Pan on Ice* yn Venue Cymru, ymweld â gardd Plas Brondanw gyda'r garddwr Dyfed Williams, a Helfa Drysor ym Mharc Glynllifon a drefnwyd gan Ffederasiwn Gwynedd - Caernarfon. Gwnaed trefniadau ar gyfer ymweliad â Gwinllan Pant Du, Pen y Groes ar 9 Gorffennaf gyda swper i ddilyn yn y bwyty.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Muriel Pritchard, Tegfan, Waen Wen, a Mrs Beryl Williams, Hen Dŷ, Caerhun, y ddwy wedi methu â dod i'r cyfarfodydd eleni. Yr ydym yn meddwl amdanoch.

Croesawyd ein gwraig wadd, Mrs Carole McKenna o *Florabundance*, Biwmares, gan y Llywydd. Cafwyd gwledd o noson ganddi yn arddangos gosod blodau, gyda threfniannau trawiadol, gwahanol i'r arfer. Does ryfedd iddi fod yn un o'r ymgeiswyr yn rownd derfynol y *Welsh National Wedding Awards 2012-2013!* Cafwyd y diolchiadau gan Mrs Liz Bestwick. Bu pedair aelod lwcus yn ffodus o ennill gosodiad yr un a roddwyd i'r raffl.

Gwesteion y te oedd Mrs Elizabeth Evans a Mrs Janet Rees. Elizabeth a roddodd y raffl fisol hefyd.

Gwyliau hapus i bawb dros yr haf - cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar 10 Medi pryd y disgwylir Mrs Sue Goodey i roi sgwrs gyda sleidiau ar erddi mynwentydd y ddau ryfel byd yn Ffrainc, lle bu'n guradur. Cyfarfodydd yn y Ganolfan am 7.30yh, croeso cynnes i bawb

Clwb Cant y Ganolfan Enillwyr Mehefin

£20 - 41 - Alwen Gardiner
£10 - 8 - Nesta Parry
£ 5 - 52 - Elizabeth Evans
£ 5 - 72 - Marred Jones

Côr Llewyrch

Ffurfiwyd parti merched 'Llewyrch' ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer eitem gerddorol ar Sul y Cofio ar raglen Dechrau Canu Dechrau Canmol. Daw'r merched at ei gilydd yn achlysurol o wahanol ardaloedd megis Dyffryn Ogwen, Caernarfon, Dyffryn Conwy ac Ynys Môn.

Gwahoddwyd 'Llewyrch' i recordio cân gan Robot Arwyn a Robin Llwyd ab Owain a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer ymgyrch codi arian Esmor Davies i'r deillion a rhai â nam ar y golwg ym Mhrydain. Bydd Esmor Davies yn teithio ar JCB o John O'Groats i Land's

End yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf eleni fel rhan o'r ymgyrch honno.

Clywir y gân arbennig 'Gardd o Gariad' yn y Gymraeg ar Saesneg, gyda chyfieithiad y Dr Aled Lloyd Davies ohoni ar y cryno ddisg a lanswyd yn gynharach yn y mis yn Wrecsam.

Mae'r merched yn mwynhau cydganu ac yn gobeithio parhau i ddiddanu cynulleidfaoedd a chymdeithasau yn y dyfodol.



Cynllun Tai Gofal Ychwanegol CAE GARNEDD, BANGOR

Yn Agor Hydref 2014

Cyfle gwych i bobl hŷn fanteisio ar ffordd o fyw annibynnol mewn cymuned ddiogel a chartrefol gyda gwasanaethau gofal a chefnogaeth hyblyg.

42 o fflatiau hunan gynhaliol mewn adeilad newydd cyfoes mewn lleoliad poblogaidd. Amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol i'w mwynhau a chyfleoedd i gymdeithasu.

Fflat arddangos ar agor nawr.

Am fwy o fanylion neu becyn cais cysylltwch â Thai Gogledd Cymru -

Ffôn: 01492 572727 neu www.nwha.org.uk



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1890-1892

1890 (tua)

- Yr Arglwydd Penrhyn yn rhoi £5000 i adeiladu Eglwys Maes-y-groes.
- 1890 31/10/1890: Richard Iwan Jenkyn yn ymddiswyddo o fod yn brifathro Ysgol y Cefnfaes.
- 17/11/1890: John Newton Crowther yn dechrau ar ei swydd yn brifathro Ysgol y Cefnfaes. Bu yno tan 1912. Ganed ef yn Cornholme, ger Todmorden, a saif ar y ffin rhwng hen siroedd Caerhirfryn a Chaer Efrog. Cydweithiodd yn agos â'r Parchedig Rhys J. Huws i redeg yr Eisteddfod y Plant enwog, a hefyd â'r cerddor adnabyddus R. S. Hughes. Mabwysiadodd yr enw barddol Glanceri ac ymhen rhyw ddwy flynedd ar ôl ei farw, cyhoeddwyd cyfrol o'i gerddi'n dwyn y teitl Ar Lannau Ceri (1930), dan olygyddiaeth S. Gwilly Davies.
- Marw'r hynafiaethydd a'r bardd, Hugh Derfel Hughes ym Mhendinas, Tregarth, a'i gladdu ym Mynwent Eglwys y Gelli.

Ganed ef yn Llandderfel 07/03/1816. Bu'n was ffarm ac yna, wedi symud i Ddyffryn Ogwen, cafodd waith yn bwyswr yn Chwarel y Penrhyn. Priododd yn 1846 ac ymsefydlu yng nghartref ei wraig ym Mhendinas. Ei gyfrolau: Blodeu'r Gân (1844); Y Gweithiwr Caniadgar (1849) Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid (1866). Ef yw awdur 'Y Cyfamod Disigl' (a'r pennill olaf, 'Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion ...' wedi tyfu'n rhan o gyfoeth emynau'r genedl).

- Yng Nghyfarfod Blynyddol Ysgol Sul y Gerlan, penderfynwyd talu £1 y flwyddyn i Mrs Jervis [gwraig prifathro'r Ysgol ddyddiol - ysgol Eglwys] 'am gyneu tân, rhoddi glo, tynu llwch oddiar y feinciau, etc. ar y Suliau'.

1891

- 10/10/1891: Dyddiad Rhagair Hanes Dechreuad a Chynydd y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanllechid, Sir Gaernarfon, Edward Jones, Bangor.
- 12/1891: W. J. Parry a W. J. Williams yn rhoi tystiolaeth ger bron y Comisiwn Brenhinol ar Lafur ynglŷn â materion yn effeithio ar chwarelwyr Gogledd Cymru.
- Geni Ben(jamin) Jones (Ben Fardd).

1892

- 22/05/1892: 'Canwyd clychau St Cross am y tro cyntaf gan y Parch. Evan Davies ... er dathlu pen-blwydd y Frenhines Victoria.'
- 18/06/1892: Geni J. O. Williams, llenor a chyd-awdur Llyfr Mawr y Plant. Awdur y gweithiau a ganlyn hefyd: Storiâu a Sgrifau, 1933; Straeon Wil, 1933; Tua'r Gorllewin ac Ysgrifau Eraill, 1938; Corlannau, 1957. Bu farw 16/03/1973 a chladdwyd ym Mynwent Coetmor 21/03/1973.
- 22/09/1892: Cysegru Eglwys Maes-y-groes gan Esgob Lloyd, Bangor, 'a galwyd hi yn St Cross.'
- Eisteddfod Gadeiriol Bethesda. Dewi Glan Teifi yn fuddugol am ei feddargraff i Mr Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda.

I'w barhau

Marchnad Ogwen

Mae pawb wedi hen glywed y dywediad "dewch yn llw" - ond wir, rydan ni i gyd ym Marchnad Ogwen yn gobeithio y bydd hyn yn berthnasol iawn ym Marchnad Awst! Mae'r Farchnad yn cychwyn ar gyfnod newydd yn ei hanes - sef symud i'n cartref newydd yn Neuadd Ogwen. Mae'n ddiddorol iawn fod Marchnad unwaith eto yn mynd i fod yn Neuadd Ogwen yn tydi.

Mae trefniadau cyffrous ar y gweill

Gyda mwy o le yn Neuadd Ogwen, rydym yn gobeithio ehangu'r Farchnad i gynnwys mwy o stondinau. Ar hyn o bryd, caws (nid caws gafr), cig a melysion cartref sydd eu hangen.

Rydym yn bwriadu cychwyn ar syniad newydd o gynnig Standin Un Tro i werthwyr sydd gyda chynnyrch **gwahanol** i'n Stodinau ni. Efallai nad oes digon o nwyddau gennych i gynnal standin bob mis ond eich bod eisiau rhoi cynnig ar gynnal Standin am un tro. Bydd mwy o fanylion am hyn ym Marchnad Awst.

Byddwn yn cyflwyno Cerdyn Ffyddlondeb i'r cwsmeriaid hynny sy'n cefnogi Marchnad Ogwen yn gyson. Bydd paned am ddim i chwi bob hyn a hyn, i ddiolch am ein cefnogi!

Bydd y Standin Elusen yn parhau fel o'r blaen. Clwb Garddio Eglwys Coetmor fydd yn ei chynnal ym mis Awst ac Eglwys St Tegai, Llandygái ym mis Medi. Ionawr yw'r mis nesaf sy'n rhydd. Bydd y Caffi Bach yn agored fel arfer.

Dewch i'n gweld yn Neuadd Ogwen a bydd mwy o wybodaeth am y trefniadau newydd hyn i gyd.

Mae'r trefniadau at y diwrnod cyntaf yn Neuadd Ogwen yn dal yn agored i syniadau ar y funud.

Bydd y Farchnad ar 9 Awst hefyd yn cychwyn ar amser gwahanol sef 9.30 y bore tan 1.30 y prynhawn a dyna fydd y drefn o hyn ymlaen.

Felly croeso cynnes iawn i'n cwsmeriaid arferol, a rhai newydd, yn Neuadd Ogwen ar yr ail Sadwrn o bob mis.

Am wybodaeth am y Farchnad, ewch i'n gwefan www.marchnadogwen.co.uk neu e-bostiwrch ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk ac rydym ar Facebook a Twitter hefyd.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Mehefin aeth nifer o aelodau'r gangen i noson gymdeithasol Plaid Lafur Arfon, i wrando ar hanes y rhyfel byd gan Marion Hughes, Rachub, a mwynhau bwyd a baratowyd gan yr aelodau.

Trist oedd clywed y penwythnos wedyn am farwolaeth Arthur Williams, Tregarth, cyn-drysorydd y gangen. Cyflwynwyd cydymdeimlad i'r teulu ffyddlon.

Tua chanol y mis, trefnwyd bod pabell yn sioe amaethyddol y Dyffryn. Da oedd cael presenoldeb Alun Pugh (ein hymgeisydd seneddol) ar y maes trwy gydol y dydd.

Ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, ac etholwyd Louise Prendergast, Mynydd Llandygái, yn gadeirydd y gangen. Hoffem longyfarch Godfrey Northam, Rachub, am gael ei ethol yn gadeirydd Cyngor Bethesda am yr ail dro.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar bedwaredd nos Fercher mis Gorffennaf (y 23ain) am 7.30 yng Nghanolfan Cefnfaes, ond ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein cyfarfod diweddaraf ar nos Fawrth, 24 Mehefin.

Roedd gan y gangen standin yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eto eleni a threuliodd darpar ymgeisydd y Cynulliad, sef Siân Gwenllïan, amser gyda ni yno, gan fynd o amgylch y sioe a chael amser wrth ei bodd yng nghwmni trigolion yr ardal. Bu Alun Ffred Jones ar ymweliad hefyd. Ar wahân i wneud elw at y Gangen, roeddem yn falch o groesawu aelod newydd ifanc o'r dyffryn.



Alun Ffred Jones, AS, a Siân Gwenllïan, yn dilyn sgwrs gyda Rhys Cross.

Cafodd y cynghorwyr nifer o gwynion gan etholwyr am ddiffyg prydlondeb bysiau'r cwmni Arriva wedi i wasanaeth Bysiau Padarn ddod i ben. Roedd nifer yn cwyno bod rhai o'r bysiau yn hwyr neu ddim yn dod o gwbl, ac weithiau bod dau fws yn dod bron gyda'i gilydd ac yn creu anrhefn llyr. Byddwn fel cangen yn ysgrifennu at y cwmni i ofyn am eglurhad ac iddynt adfer trefn yn ddiymdroi.

Cŵyn arall oedd nad yw'r adran Swyddfa Bost ar y Stryd Fawr yn gweithio'n effeithiol iawn yn dilyn y newidiadau diweddar. Os oes gennych sylw neu gŵyn yna llenwch y ffurflen sydd i'w chael yno.

Cynhaliodd Hywel Williams gymhorthfa a bydd ei swyddfa ar Stryd Fawr, Bangor, ychydig is na Ffordd Farrar, ar agor yn ddyddiol os oes gennych unrhyw beth i'w drafod. Cofiwch y gallwch gysylltu â'r gangen ar trydar ac mae gan Siân Gwenllïan a Hywel Williams ddalen ar y gwepllyf.

Croeso i'n cyfarfod nesaf ar 29 Gorffennaf.

BWRLWM Y SIOE!



**Bethan Jones, Braichmelyn.
Gwobr gyntaf am ei Bara Brith**



Beirniadu'r Ceffylau



**Un o fyddloniaid y Sioe,
Brenda Williams, yn cipio llw o
wobrau yn yr Adran Flodau**



**Paul Bernat ac Eira Crocombe,
Tai Teilwriaid. Enillwyr cwpan a
llu o wobrau yn yr Adranau
Gwin, Llysiau, Coginio ac ati.**



**Cian a Math efo'u
Bwgan Brain**



**Bryn Jones, Garneddwen,
Bethesda.
Gwobr gyntaf am wneud pizza**




**Carys Jones, Dinas, a enillodd
dair gwobr (collage, poster ac
arllunio)**



**Elin Lliwedd Roberts o
Dregarth, a enillodd y 3edd
wobr am "Hunan Bortread", a
Bessie Tranter o Gilfodan, a
gafodd y wobwr gyntaf am greu
tŷ allan o bws a ffa ac ati.**



Amser panad i griw gweithgar stondin NSPCC Dyffryn Ogwen



Enillydd cwpan yr Adran Arddio am y pumed tro oedd Alan Davies, gynt o Tyddyn Canol, Mynydd Llandygai. Llongyfarchiadau!



Efa Lois a Mali Fflur o Ysgol Llanllechid, gydag Anwen a Terry yn eu helpu i ddangos eu 4 ymgais buddugol



Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid, gyda'i Austin 10 Sherbourne 1936. (Arddangosfa Hen Beiriannau)



Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, yn arddangos ei "Ffyrgei Bach" 1952



Mia o'r Waunfawr ar Amber yn barod i gystadlu ar y gwisg ffansi.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Bethesda

HOLIADUR TAI LLEOL

Adroddwyd bod 1250 o holiaduron wedi cael eu dosbarthu gan yr Aelodau ar draws ardal y Cyngor Cymuned, ond mai nifer siomedig a ddaeth yn ôl, sef 40.

O'r rhain, 23 oedd yn nodi'r angen am dŷ yn Nyffryn Ogwen – 70% yn deuluoedd neu gyplau ifanc yn chwilio am dŷ mwy, a 30% yn bobol wedi ymddeol a oedd yn awyddus i symud i eiddo llai.

Penderfynwyd anfon y canfyddiadau at ddeilydd portffolio Cynllunio Cyngor Gwynedd.

BYSIAU

Nodwyd bod nifer o gwynion wedi eu derbyn am safon y gwasanaeth bws yn yr ardal. Cafwyd amryw o enghreifftiau o fysiau hwyr, rhai heb ymddangos o gwbl, a nifer yn orlawn. Penderfynwyd ysgrifennu at gwmni Arriva i gwyno.

WEIRAN WIB

Datganwyd pryder nad yw'r BBC yn crybwyll Bethesda na Dyffryn Ogwen wrth drafod y Weiran Wib, a phenderfynwyd ysgrifennu atynt i dynnu eu sylw at y mater.

LLYS DAFYDD

Er mwyn ceisio hybu'r defnydd, mae pwyllgor Llys Dafydd am roi'r gorau i godi ffi am ddefnyddio'r safle, ond bydd yn rhaid talu os am ddefnyddio'r ciosg neu'r pebyll.

Yn dilyn cais gan y pwyllgor, penderfynwyd gofyn am bris i wneud gwaith pellach i atal dŵr i sefyll ar y safle.

Adroddwyd hefyd bod golwg y safle wedi gwella'n ddiweddar ar ôl i rai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen fod yno'n chwynnu.

PARTNERIAETH OGWEN

Adroddwyd bod y Bartneriaeth wedi penodi Swyddog Datblygu, sef Meleri Davies o Lanllechid, ac y bydd Siop Ogwen yn trosglwyddo iddynt o ddwylo'r contractwyr o fewn yr wythnosau nesaf.

NEUADD OGWEN

Adroddwyd bod y gwaith o fewn ychydig wythnosau i'w gwblhau gyda digwyddiadau eisoes wedi eu trefnu at ddiwedd Gorffennaf ac Awst, ond y bydd yn fis Medi cyn i'r Neuadd agor yn llawn. Roedd yr Aelodau'n edrych ymlaen at ailgychwyn y Boreau Coffi, ac eglurwyd y byddai Pwyllgor Rheoli'r neuadd yn trefnu ambell un ym mis Awst er mwyn cael gweld sut bydd yn gweithio o dan y drefn newydd.

BASGEDI CROG

Diolchwyd i Balchder Bro Ogwen am osod y basgedi crog

ar y Stryd Fawr, ac ymfalchiwyd yn y modd y maent wedi dod â lliw i'r Stryd Fawr.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Gorffennaf am 7 o'r gloch yng Ngorffwysfan.

Cyngor Cymuned Lanllechid

SWYDDOGION

Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2014-15 fydd Bob Doyle, Tyddyn Du, a'r isgadeirydd fydd Darrelle Smith o Lanllechid.

AELODAU NEWYDD

Cyfetholwyd aelodau newydd i ddwy sedd wag, sef Myfanwy Jones o Fro Emrys, Talybont, ac Alun Thomas, Fferm Ty'n Hendre.

CYFARFODYDD

Penderfynwyd y bydd cyfarfodydd y Cyngor yn symud i'r ail ddydd Iau yn y mis o hyn ymlaen, ac yn cael eu cynnal yn festri Bethlehem, Talybont.

COMIN MYNYDD

LLANLLECHID

Gyda'r Achos yn ei erbyn bellach wedi ei ollwng, mae'r Cyngor yn rhydd i fwrw ymlaen gyda'r bwriad i sefydlu panel annibynnol i ofalu am ddyrannu hawliau pori ar y Comin.

BAND LLYDAN

Mynegwyd rhwystredigaeth gyda safon isel y gwasanaeth mewn tai sy'n bell o'r gyfnwidfa. Awgrymwyd mai hen wifrau copr sydd ar fai, a phenderfynwyd ysgrifennu at BT i gwyno.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Medi am 7 o'r gloch.

Cyngor Cymuned Pentir


Yn eu cyfarfod ar 12 Mehefin, bu'r cyngorwyr yn trafod y traffig a chyflymder y traffig drwy Bentir. Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd, y Cyngorydd Lowri James a'r Cyngorydd Sir, John Wyn Williams, gyfarfod â Swyddog o Gyngor Gwynedd ym Mhentir er mwyn gweld be ellid ei wneud.

Nodwyd nad yw'r gwaith o roi wyneb newydd ar lwybr Cae Chwarae Caerhun wedi'i wneud a bod angen cael ffens o gwmpas y cae. Nodwyd bod y clerc yn cyfarfod â Phwyllgor "Llais y Gymuned" yn ystod y mis i drafod hyn.

Cafwyd map yn dangos llwybrau'r ardal a nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn gwneud arolwg o holl lwybrau'r Sir ac y byddant yn cyhoeddi map newydd ar ôl cwblhau'r gwaith. Gobaith Cyngor Pentir yw gallu cyhoeddi llyfryn yn nodi lle mae'r holl lwybrau fel eu bod yn hysbys i bawb.

Taith o Amgylch y Fro

gydag Arwyn Oliver



Taith 9 – Ffridd Fawr

Aeth ambell i fis heibio ers i mi gynnwys taith yn y Llais ac ymddiheuraf am hynny. Felly dyma ailafael yn y teithiau gyda thaith fach hamddenol i gyfeiriad y Ffridd Fawr.

Cychwyn ger y Feddygfa gan gerdded heibio Tai Lôn Sarnau heibio ffatri G L Jones i gyfeiriad Pont Sarnau. Croesi'r bont a dilyn y llwybr yn syth i fyny am y Lôn Gefn. Daw'r llwybr i'r lôn yn Ffranon View. Troi i'r dde i gyfeiriad Tregarth a cherdded i waelod allt Bryn Eglwys (allt Sant Ann's i drigolion yr ardal). Cerdded i fyny'r allt am ryw 100 metr nes cyrraedd yr arwyddion 30. Gyferbyn â Chilgeraint Isaf mae llwybr ar y dde i chwi a fydd yn eich arwain i'r Ffridd Fawr.

Aiff y llwybr â chi drwy'r coed, drwy giât a thrwy'r coed eto am sbel. Pan ddowch at fforch yn y llwybr - cadw'n syth ymlaen. Dilynwch y llwybr nes cyrraedd giât fochyn. Ewch drwyddi ac rydych ar lwybr y ffridd. Flynyddoedd yn ôl byddai gan bob tyddynwr a fyddai'n byw ar allt Sant Ann's hawl i bori anifeiliaid ar y ffridd.

Dilynwch y llwybr i fyny'r ffridd. Byddwch yn croesi ambell i nant fechan ac ar ôl rhai munudau o gerdded fe ddowch at giât fochyn weddol newydd sy'n arwain i gae. Mae'n werth oedi yma i weld yr olygfa o'r mynyddoedd.

Ewch i'r chwith ar y llwybr sy'n mynd drwy'r eithin ac fe ddowch i olwg tai Pen y Ffriddoedd. Anelwch am y tai gan wyro i'r dde oddi ar y llwybr a pheidio â mynd at y giât fochyn sydd yng nghornel chwith y cae.

Fe welwch giât fawr a giât fochyn sy'n mynd ar hyd stryd Pen y Ffriddoedd. Peidio mynd drwy'r giât ond yn hytrach troi i'r dde a dilyn y clawdd ar y chwith. Ymhen rhyw ganllath fe ddowch at giât arall. Ewch drwyddi gan ddilyn y llwybr troellog drwy'r eithin a'r coed. Mae'n gallu bod yn fwdlyd yn y rhan yma ond mae'r llwybr yn eithaf clir. Bydd y giât fochyn nesaf gyda chlawdd cerrig o'i hamgylch. Ewch drwyddi a chadw i ochr dde'r cae bychan.

Daw tai Hafoty i'r golwg ymhen dipyn gyda'r llwybr yn dilyn talcen y tŷ. Mae'r ddwy giât fochyn yma gyda chortyn arnynt er mwyn cadw'r anifeiliaid yn ddiogel. Ewch heibio talcen y tŷ a chyrraedd y lôn sy'n arwain o Fraich Talog, Tregarth i Fynydd Llandygái. Trowch i'r dde a cherdded rhyw hanner can llath cyn troi i'r dde eto i lawr Lôn Hafoty. Byddwch yn ofalus yn fan hyn gan fod y ffordd yn eithaf cul ac ambell i dro drwg arni.

Cerddwch i lawr y ffordd nes cyrraedd Hen Dyrpeg. Fe welwch fod cwt gwyrd yr agorwr giatiaau ar gyfer trên bach y chwarel ar y dde i chwi ac olion y trac sydd bellach yn lôn gefn i dai Hen Dyrpeg.

Croeswch y ffordd a cherdded i lawr am Bont Coetmor a'r hen Felin. Croesi'r bont a throi i'r chwith i ymuno â Lôn Las Ogwen (llwybr sy'n boblogaidd iawn erbyn hyn). Dilynwch y llwybr yn ôl i gyfeiriad Bethesda.

Pellter: Rhyw 3 milltir

Amser: Tuag awr a chwarter

Math o daith: Llwybrau, caeau a tharmac

Offer: esgidiau addas (mwdlyd mewn manau)

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE

e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754
07770 568743 (symudol)



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

MODURON FREEMAN

Gwasanaeth a Thrsio MOT, Weldio,
Faletio, ac Atgyweirio Mân-
ddamweiniau

"Gwasanaeth proffesiynol y gallwch
ddibynnu arno"

Uned 1A, Gweithdy Penlan,
Llandygái, Bangor LL57 4HU

01248 364452
07733814233



Malinda Hayward

(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne

a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD TŶ

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Dewis Fferyllfa

Ydych chi angen

gweld y meddyg

heddiw?

Os mai un o'r rhain ydyw...
camdreuliad, rhwymedd, dolur
rhydd, peils, clwy'r gwair, llau pen,
torri dannedd, brech clwt/cewyn,
colig, brech yr ieir, llyngyr, dolur
gwddw, tarwden y traed, heintiad
llygad, llid yr amrant, briwiau yn y
geg, doluriau annwyd, acne, llygaid
sych, dermatitis, ferwca, poen cefn,
casewinedd, llindag y wain, llindag y
geg, clefyd crafu

Gall eich Fferylllydd Cymunedol roi
cyngor a thriniaeth gyfrinachol GIG,
yn rhad ac am ddim, heb ichi orfod
trefnu i weld eich meddyg teulu.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, am ennill y wobwr gyntaf a'r ail wobwr yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth 'Tirluniau' Sioe Dyffryn Ogwen eleni.

Cafodd llun o Ferlod y Carneddau (teitl y llun "Gwasgfa") gan Emyr Roberts, Bryn Derwen – a dynnwyd yn fferm Tyddyn Du, ei gynnwys yn arddangosfa'r 'London Salon' sydd i'w gweld eleni yn Llundain, Smethwick a Chaeredin.



Gwasgfa

Hefyd mae ei lun o 'Gorlan y Gyrn' i'w weld yn Arddangosfa Ddigidol yr Academi Frenhinol Gymreig yng Nghonwy.

Bydd y Clwb Camera yn aildechrau nos Fercher 10 Medi - fel arfer yng Nghanolfan Cefnfaes am 7.30 yr hwyr, gyda Noson Groeso. Yr ail gyfarfod ar 25 Medi fydd 'Llynnoedd Eryri' gan Geraint Thomas o Stiwdio Panorama, Caernarfon.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ffotograffiaeth ymuno â ni.

Darlith Goffa Dafydd Orwig



Yr Athro Gerwyn Williams

"Rhyfel Mawr Cynan" oedd teitl darlith ddiddorol yr Athro Gerwyn Williams yn Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda nos Lun, 9 Mehefin. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i wrando ar Ddarlith Goffa Dafydd Orwig, digwyddiad o bwys yn Nyffryn Ogwen erbyn hyn, ac edrychir ymlaen yn eiddgar ati o flwyddyn i flwyddyn.

Diolch i Wasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd am y trefniadau.

Croesair Gorffennaf/Awst 2014

AR DRAWS

- 1 Llwch melyn i'r gwenyn (4)
- 4 Rhan o air (3)
- 6 Hanfodol i grochenydd (4)
- 8 Hoff bleser dringwr a chrwydrwr yr uchelfannau (6)
- 9 Craig yr oesoedd? Wel, mae'n un o'r rhai caletaf beth bynnag (6)
- 10 Y rhai sy'n dal tenantiaeth a thalu rhent (8)
- 11 Roedd Sion Cwilt y smyglwr yn byw yn yr ardal, ond nid lle i gadw arian ydoedd (4)
- 12 Un o wŷr enwocaf yr oes hon a ddaeth o'i gaethiwed i ryddhau ei bobl (6,7)
- 17 Y peldroediwr gorau a fu erioed medd llawer (4)
- 19 Crefydd yr Yom Kippur a'r Bar Mitzvah (8)
- 22 Nofwr a physgotwr heb ei ail (6)
- 23 Blêr ac anniben, heb fawr o lewyrch arno (6)
- 24 Cyfenw un o gymeriadau a theitl nofel gan Daniel Owen (4)
- 25 A yw'r paradwys yn 14 I Lawr? Go brin (3)
- 26 Mae un 'groyw, loyw' yn y mynydd (4)


- 7 Perthnasol i un o organau pwysicaf y corff (7)
- 10 Homo (Lladin) (3)
- 13 Copïo (7)
- 14 Planed duw'r moroedd (7)
- 15 Mae Dafydd bach yn ysgwyd wrth wylo (7)
- 16 Rupert neu Paddington (3)
- 18 Mae olion ei gastell a'i ddinas ger Beddgelert (5)
- 20 Enw bachgen (5)
- 21 Pentref yn Llŷn lle mae bedd yr efenglydd Tom Nefyn (5)

ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2014

AR DRAWS 7 Efydd, 8 WEA, 9 Rala, 10 A Llawer, 11 Diwifr, 12 Iro, 13 Un Athro, 14 Datrys, 16 Ffermio, 19 Rhedwyr, 21 Ebe, 22 Parlwr, 24 Wigwam, 25 Fferm, 26 Ynn, 27 Euog.

I LAWR 1 Afallen, 2 Oddi Wrthym, 3 Gwario, 4 Cardod, 5 Criw, 6 Clafdy, 15 Tadogaeth, 17 Edafedd, 18 Oerllyd, 19 Rhewynt, 20 Ymaros, 23 Lamp.

Diolch i bawb a gystadlodd y mis diwethaf. Dyma'r rhai gafodd yr atebion yn gywir : Derek a Mai Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Doris Shaw, Bangor; Myfanwy Jones, Gaerwen; E.E. Roberts, Llanberis; Gareth William Jones, Bow Street; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Ellen Whitehouse, Birmingham; Elfed Evans, Llanllechid; John a Meirwen Hughes, Abergele; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Jean Hughes, Talybont; Gaynor Elis-Williams, Bethesda.



Ond yr un sy'n fuddugol y tro hwn yw Rita Bullock, 8 Maes-y-Garnedd, Bethesda, Gwynedd LL57 3BP. Da iawn wir. Yn y 'Llais' fis Medi y gwelwn ein gilydd nesaf, felly pob hwyl i chi dros wyliau'r haf.

Atebion erbyn dydd Mercher, 3 Medi 2014 i: 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.
Enw:
Cyfeiriad:

- ### I LAWR
- 2 Ble y byddwch wrth ddefnyddio'r rhyngwyd (2,1,2)
 - 3 Lliw aderyn y deunod (7)
 - 4 Mae Al a Sam yn rhai digri a chellweirus pan fyddant yn chwil (5)
 - 5 Lle i darth. Mae'n siwr o fod yn damp yno (7)
 - 6 I ddangos pwy drengodd yn y rhyfel (5)

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Theatr Bara Caws
yn cyflwyno

GARW

gan

Sion Eirian

Diwedd yr 80au yn Nyffryn Aman. Mae'r byd yn newid i Llew, cyn lŵr a chyn focsiwr. Nid dwylo garw'r dynion sy'n cynnal teuluoedd bellach, ond bysedd diwyd y gwagedd. Os yw gorwelion Llew yn culhau, mae gorwelion Sara ei wraig a Lowri ei ferch yn lledaenu i gyfeiriadau annisgwyl. A gyda'r holl newidiadau mae seiliau'r aelwyd yn simsanu.

Drama newydd heriol am bobl a'u brwydrau mewn cyfnod o newid ysgytwol yn hanes diweddar Cymru.

Cast: Rhys Parry Jones, Eiry Thomas, Gwawr Loader, Sion Ifan

Cyfarwyddo: Betsan Llwyd

Yn agor yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli ym mis Awst - yn Y FFWRNES, LLANELLI Nos Fawrth 5ed o Awst hyd at Nos Wener 8fed o Awst 7.45 yr hwyr

Yna taith genedlaethol:
Medi 22 – Hydref 11, 2014

Taith Gerdded Flynyddol Llyn Ogwen i Fethesda

**Bore Sadwrn,
19 Gorffennaf, 2014.**

Rhennir yr arian rhwng
Cronfa Cancr a Liwcemia mewn
Plant (CLIC)
a Chronfa Apêl Sion Guto.

Cysylltwch gyda Raymond neu
Ann Tugwell ar 01248 601077
am wybodaeth bellach.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick
Bethesda

11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Grŵp Cymorth Teuluol Epilepsi Capel Penuel

Lôn Cariadon, Bangor
ar drydydd dydd Llun pob mis
rhwng 3.30-5.30.

Croeso i blant, teuluoedd, pobl
ifanc ac oedolion
ac unrhyw un sydd yn cael eu
heffeithio gan Epilepsi.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch
601715.


Marchnad Ogwen

9 Awst
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

13 Medi
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook



Medi 13^{eg} 2014

Côr Merched Llantrisant

yng nghwmni: Neville Hughes
Sian Mererid (Oboe)
Stuart Street (Trwmped)

Neuadd Ogwen, Bethesda
Nos Sadwrn 13eg Medi 2014
7.30pm
Tocynnau: £7.00
Tocynnau ar werth yn swyddfa
Neuadd Ogwen neu gan aelodau'r côr

OGWEN

CP

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Gorffennaf 22 a 29
Medi 9, 23 a 30
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

MIRI MEURIG

ym Mharc Meurig

Dydd Sadwrn 23 Awst
11.00 - 4.00

Castell Gwynt, Stondinau, Cerddoriaeth,
Peppa Pinc a llawer mwy
Diwrnod Llawn Hwyl i'r Teulu Cyfan

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Rydym yn cyfarfod bob pythefnos
rhwng mis Medi a mis Ebrill yng
Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda.

**Noson Groeso - 10 Medi 2014
am 7.30**

Os ydych yn mwynhau ffotograffiaeth,
ar unrhyw lefel, dewch draw!



T.G.S

CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU
 2 Glan yr Afon, Carneddi, Bethesda LL57 3TB
 ☎ **08000 126 213** tgsroofing@hotmail.com

Ffoniwch Mark i drafod eich anghenion adeiladu.
 Mae gwarant 20 mlynedd ar ein toeau fflat!

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

CAB Gwynedd & De Ynys Môn 

Angen cyngor?

**Rydym yma i helpu.
 Pwy bynnag ydych chi.
 Beth bynnag fo'r broblem.**

Cysylltwch â ni

08444 772 020 (Llinell Gymorth Cymru)
 Rhwng 9.00 yb a 4.30 yp Dydd Llun – Dydd Gwener

Neu

0845 450 3064 (Llinell Gymorth Gwynedd)
 Rhwng 10 yb a 3 yp Ddydd Llun – Ddydd Gwener
 (yn ymestyn i 7 yh Dydd Llun a Dydd Iau)

Mae gwybodaeth hefyd i gael ar y we:
www.adviceguide.org.uk

Rhif elusen gofrestrig 1092359

Y BWTHYN TE
pen y ceunant isaf
 LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
 BWTHYN A ADEILADWYD AR
 WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
 (O LLANBERIS)
 YN YSTOD Y 15^{ed} GANRIF
 CEWCH GROESO ARBENNIG
 YMA, YN OGYSTALA
 GOLYGFYDD GWYCH DROS
 LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
 DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
 MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

**Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
 a llu o arlunwyr Cymreig eraill**

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
 steven@ceunant.co.uk

YSGOL YRRU

DerfeL


07982 076 455
01248 605 325

derfelowen@sky.com  Haulfryn - Llanllechid

e-bost: gwion@dioni.co.uk
 tel: 01341 247 200



**"CYSYLLTWCH Â NI I
 HYRWYDDO EICH BWTHYN
 GWYLIAU"**


Alun Ffred Jones
 Aelod Cynulliad
 Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
 Os oes gennych fater yr hoffech ei
 drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
 yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
 Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
 ☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
 ☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
 Aelod Seneddol
 Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
 Os oes gennych fater yr hoffech ei
 drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
 yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
 ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
 ☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
 ☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Ar Werth**Piano fach 6 octave**

Gwneuthuriad Berry

Mewn Cyflwr Da

Ffoniwch 07779795798

**Hysbysebwrch eich
gweithgareddau
yn y Llais
600853****EGLWYS UNEDIG BETHESDA****'LLENWR CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd**Côr Meibion y Penrhyn****Y Côr yn cyfrannu'n hael unwaith eto**

Cafwyd noson o Hwyl Haf yn Llanfairfechan yng nghanol mis Mehefin gyda'r côr ynghyd â John Pierce Jones (Mr Picton) a Dilwyn Morgan, y digrifwr o'r Bala, yn arwain ac yn difyrru gyda'r canwr talentog o Lanfairfechan, Alistair James, yn cloi'r noson gyda stôr o ganeuon Cymraeg poblogaidd. Roedd hon yn noson hwyliog dros ben gyda'r gynulleidfa fawr yn eistedd o amgylch byrddau yn Neuadd y Dref yn Llanfair. Llwyddwyd i gasglu £1000 at Ymchwil i Ganser drwy werthu raffl a rhodd y côr. Mae hyn ar ben y rhoddion a wnaeth y côr i Hosbis Llandudno ac Eglwys Llanfair yn ddiweddar pan roddwyd £300 i'r hosbis a £200 i'r eglwys yn dilyn Cyngerdd Coffa Dick Lewis.

"Y côr gorau a glywais erioed"

Ar Ddydd Sadwrn 28 Mehefin, bu'r côr yn canu mewn priodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Merch Gareth Williams sy'n canu gyda'r tenoriaid cyntaf oedd yn priodi a chanodd yr aelodau sawl darn o'u rhaglen gan gynnwys "Anfonaf Angel" gan Robot Arwyn a "Benedictus" gan yr un cyfansoddwr. Wrth gael egwyl tra roedd y tynnwr lluniau wrth ei gwaith, daeth un o'r gwahoddedigion at aelod o'r côr a mynegi mai "Dyma'r côr gorau i mi ei glywed erioed". Canmoliaeth uchel a rhywbeth i godi calon pob aelod.

Noson Hwyl Haf Bethesda

Cynhelir noson debyg i'r un a gafwyd yn Llanfair ym Methesda ar y 12 Gorffennaf pan fyddwn yn cynnal barbeciw a noson o ddifyrrwch yng nghwmni aelodau'r côr yn y Clwb Criced a Bowllo. Mae croeso i bawb ymuno â ni ar y noson am ddim ond tâl bychan am y barbeciw.

**CHWILAIR GORFFENNAF 2014
Brenhinoedd a Llywodraethwyr Cymru**

A	D	D	Y	F	A	D	A	W	F
B	H	X	J	U	I	S	V	S	H
F	F	U	R	G	I	M	G	I	V
N	Y	L	E	W	E	L	L	A	H
Y	F	F	U	R	G	M	D	G	W
D	A	N	A	P	A	U	Q	O	U
U	G	R	H	C	U	M	W	A	N
Y	U	T	F	D	X	U	P	P	W
H	R	O	Y	E	E	G	E	I	O
B	B	F	C	U	U	J	P	D	L
B	B	F	N	R	F	O	G	W	J
M	H	T	T	Y	O	S	K	A	O
B	O	R	C	X	F	V	R	L	Y
J	D	Z	H	B	C	R	W	O	S
X	J	J	M	B	W	T	E	E	X
N	A	B	L	E	U	A	F	M	M
Y	D	E	R	A	M	X	K	F	U
D	D	L	E	W	Y	H	C	Q	Y
C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B
V	O	G	J	P	W	P	G	S	O


Brenhinoedd a llywodraethwyr Cymru yw testun y chwilair y mis yma. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at wrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW erbyn 31 Awst os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobwr.

Yn y chwilair y mis yma mae enwau rhai o Frenhinoedd a Rheolwyr cynnar Cymru. Byddwch yn ofalus gan fod rhai o'r enwau yn fwy nag y maent i'w gweld ar y cychwyn.

Y mis diwethaf roedd rhai ohonoch wedi darganfod geiriau fel Het Pâr a gwas yn y chwilair, ond yn anffodus nid dyma'r rhai yr oeddwn wedi'u cynnwys. Dyma atebion Mehefin: Addewidion, Anrhegion, Blodau, Brechwast, Eglwys, Gwasanaeth, Gwesteion, Gwesty, Llundu, Modrwyau, Morwynion, Priodferch.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Myfanwy Jones, Gaerwen; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Lois Angharad Hughes, Gerlan; Doris Shaw, Bangor; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Eirlys Edwards, Bethesda; Margaret Williams, Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth. **Enillydd Mehefin oedd:-** Merfyn a Laura Jones, Penisar Allt, Tregarth, Bangor, LL57 4NB.

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Wyn Roberts o Lanfairfechan sy'n gweithio i'r Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno.

Be ydy dy enw llawn? – Wyn Roberts**Oed?** – 50**Lle wyt ti'n byw?** – Llanfairfechan**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** – Bangor**Pa dri o'r rhain fysai'n dy ddisgrifio orau?****Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus / Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi cwmni / Hael / Gofalus efo arian / eisiau bod yn unawdydd / Un sy'n canu yn y bath?**

Hapus / Mwynhau Bywyd / Un sy'n canu yn y bath

Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr?

Ers 4 mlynedd

Pa lais wyt ti? – Bariton**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**

Wedi bod eisiau ymuno â chôr ers blyneddodded ac amser bellach yn caniatáu a hefyd aelodau eraill o Lanfair yn dwyn perswâd.

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?

"Tydi a roddaist"

Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores?

Rhys Meirion

Beth ydy dy farn di am ganu pop?

lawn yn ei le.

Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr?

Canu mewn priodas yn Reading tra yno'n aros ar ôl recordio yn Maida Vale – canu'n ddigymell a'r cwpl a'u gwesteion wedi gwirioni.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr? Rygbi, cerdded a darllen**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud?** Trip i America neu Awstralia.

I.D.R.

Gwaith Coed ac Adeiladu Cyffredinol
Am waith o safon uchel
Am bris diguro
Am waith mawr neu fychan
Cysylltwch ag Iwan
☎ 07553 977275
☎ 01248 602062

**Ymgwymerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur
**Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan**
Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi
♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÌ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOLA DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab**

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN
*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*
Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni **Ambwch** **Benllech**
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

**Hysbysebu
yn y Llais**

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**MODURDY
FFRYDLAS**

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

GAIR O'R DOSBARTH


Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyflwyno Proffil Personol

Ddydd Mercher, 18 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn iddynt sefyll eu harholiadau a gadael yr ysgol. Braff oedd croesawu Mr Iwan Hywel, Swyddog Gyrfaoedd, fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach ers blyneddod i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod – roedd pob un yn hynod o smart! Cafwyd triawd lleisiol 'Cwsg Owain' gan Elin Cain, Sara Parry a Louise Jeffreys, unawd gitâr 'Dirt Wizard' gan Jack Peall ac unawd o Sioe Gerdd 'Almost There' gan Elin Cain allan o 'Princess and the Frog'. Braff iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Siân Williams, Josh Williams, Kyle Thomas a Thomas Speddy



Jake Williams, Cieran Williams, Peter Stephens a Leone Sherlock

Diwrnod Mabolgampau Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ar gae'r ysgol ar 13 Mehefin a chafwyd diwrnod da o gystadlu yn y tywydd braff. Tryfan oedd y tŷ buddugol. Aeth y disgyblion buddugol ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth Arfon yn ddiweddarach.

Blwyddyn 12 – Taith Llundain

Ar y 30 Mehefin tan 1 Gorffennaf bu criw o fyfyrwyr BAC blwyddyn 12 yn Llundain. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cawsant gyfle i gael blas iawn ar Lundain gan weld 'Changing of the Guards', Palas Buckingham, Big Ben, London Eye, Stryd Downing a Sgwâr Trafalgar. Roedd 'China Town' a Sgwâr Leicester yn ardaloedd bywiog a thrawiadol a'r Amgueddfa Brydeinig yn ddiddorol dros ben. Cafodd y criw eu tywys o amgylch San Steffan a chyfle i gael sgwrs arbennig gyda Hywel Williams AS am ei waith yn San Steffan. Wedi diwrnod o grwydro, bu cyfle i ymlacio yn y theatr gyda'r hwyr i wyllo'r sioe gerdd 'Mamma Mia'.

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu'r 65 disgybl ynghyd a rhai disgyblion o du allan i'r dalgylch sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi, yma am ddiwrnod yn cael cyfle i flasgu gwersi Addysg Grefyddol, Technoleg ac Addysg Gorfforol a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!

Cyngerdd Band Chwyth

Cynhaliwyd cyngerdd band chwyth rhanbarth Bangor/Ogwen ddydd Iau, 26 Mehefin yn yr ysgol. Roedd y band yn cynnwys disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Tregarth, Pen-y-bryn, Llanllechid, y Garnedd, y Felinheli ac Ysgol Bethel. Bu'r grŵp yn ymarfer yma am yr 8 wythnos diwethaf gyda chymorth offerynwyr Ysgol Dyffryn Ogwen a oedd wedi mynychu'r ymarferion i gyd er mwyn cefnogi, addysgu a chyd-chwarae gyda'r disgyblion cynradd. Diolch iddyn nhw am eu hymroddiad arbennig. Roedd y cyngerdd yn un llwyddiannus dros ben gyda nifer helaeth wedi dod i wrando. Edrychwn ymlaen at ymestyn y berthynas yma drwy gael y band yn ôl yn y dyfodol agos.

Preseanoldeb

Mae ffigyrau preseanoldeb yr ysgol wedi codi eleni i 94.4% - cynnydd o dros 4% mewn 4 blynedd. Gyda chefnogaeth rhieni a'r staff, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed iawn i wella'r ffigyrau preseanoldeb, ac mae gwobrau yn cael eu rhoi i'r dosbarth a'r unigolion gyda'r preseanoldeb gorau. Un ffaith syfrdanol eleni yw bod 33 disgybl gyda phreseanoldeb llawn o 100% - fel arfer llond llaw yn unig fydd wedi bod yn bresennol bob diwrnod.

Un peth sy'n effeithio ar y ffigyrau preseanoldeb yw gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Fel bob ysgol arall yng Ngwynedd, mae'r llywodraethwyr wedi penderfynu caniatáu hyd at 5 diwrnod yn unig o wyliau teuluol ym mlyneddod 7-9, ond **dim un diwrnod** ym mlyneddod 10 ac 11. Gofynnir am gefnogaeth rhieni i beidio â threfnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol.

Staff

Bydd Mr Guto Wyn yn ein gadael ddiwedd y tymor, gan iddo gael ei benodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Bu'n bennaeth cynorthwyol yma ers 5 mlynedd ac yn athro Mathemateg ers dros ddeg mlynedd, ond cafwyd cyfraniad arbennig ganddo mewn sawl maes arall yn yr ysgol – trefnu gweithgareddau awyr agored, teithiau sgîo, gweithgareddau'r Urdd ac unrhyw weithgarwch arall sy'n hybu'r iaith Gymraeg. Dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer y dyfodol.

Ymweliad Jenna Downing



Dyma lun o ddisgyblion TGAU addysg gorfforol blwyddyn 9 gyda Jenna Downing o gynllun 'sky sports living for sport'. Cawsant hyfforddiant sgleffrolio a gweithdy am sut i lwyddo yn y maes cynllunio a datblygu chwaraeon. Yn dilyn hyn bu'r disgyblion hyn yn gyfrifol am gynllunio a chynnal mabolgampau Ysgol Penybryn.

Yr Adran Fathemateg



Aeth Lewis Blues, Tomos Griffith, Tomos Gwyn Jones ac Ieuan Hughes drwodd i'r rownd derfynol o'r *Edgehill Mathematics Challenge* yn Lerpwl wythnos yma lle bu rhaid iddynt roi cyflwyniad o'u datrysiaid i'r broblem "skip to it" i banel o "feirniad". Gwnaethant yn arbennig o dda i gyrraedd y rownd yma allan o 300 o gystadlwyr. Ni chafwyd llwyddiant ar y diwrnod ond cawsant ddiwrnod braff a chael treulio amser ar gampws y brifysgol. Da iawn chi hogiau!

Ysgol Llanllechid

Croeso'n ôl

Croeso'n ôl i'r ysgol i Ms Elen Evans, wedi iddi dreulio cyfnod ar famolaeth yn edrych ar ôl Abner Clwyd; brawd bach newydd Cain. Braf eich gweld yn ôl Ms Evans!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carwyn a Sophia Hughes ar eu priodas yn Eglwys Jerusalem. Mae Carwyn yn fab i Anti Gillian. Pob dymuniad da i'r ddau yn y dyfodol.

Cyngerdd Pontio

Hoffem ategu fod Mari Bullock, Swyn Owen, Mared Morris a Cerys Elen wedi bod yn chwarae'r gitâr yn y cyngerdd hwn yng nghapel Jerusalem tra oedd disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen yn canu.

Disgo'r Haf

Diolch i'n Cymdeithas Rieni/Athrawon am drefnu noson 'Disgo'r Haf' yn y Clwb Criced. Syniad gwych a noson lwyddiannus! Cafodd y plant fodd i fyw yno, ac roedd nifer o weithgareddau amrywiol wedi eu trefnu ar eu cyfer. Diolch o waelod calon i bawb a fu'n cynorthwyo. Diolch hefyd am gael benthg yr offer disgo am ddim!

Carnifal

BRASIL!! Gwyddom yn iawn am y dathliadau a'r hwyl sy'n digwydd yno dros gyfnod Cwpan y Byd! Ond yn wir, yn nosbarth Mrs Rona Williams, roedd carnifal go iawn yn digwydd, - un na welwyd ei debyg ar draeth Copacabana erioed! Roedd y plant wedi creu mygydau o bob math, plu pinc ymhobman a drymiau 'swmba' yn atseinio drwy'r coridorau! Ymlwybrodd yr orymdaith ymlaen wedyn i sgwâr Rachub, ac roedd pobol y pentref wedi cael gwledd, yn enwedig wrth weld Mrs Rona Williams ei hun yn ei gwisg anhygoel! Diwrnod i'w gofio!

Cyfeiriannu

Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn mwynhau gwersi cyfeiriannu. Mae'r hyfforddiant cychwynnol wedi bod ar dir yr ysgol gyda'r plant yn llwyddo i ddeall sut mae darllen map yn gywir ac adnabod symbolau a'r allwedd. Y cam nesaf oedd defnyddio'r sgiliau hyn y tu allan i'r ysgol ac aeth y disgyblion i Lanberis i fwynhau bore o gyfeiriannu. Diolch i Olly a Helena Burrows am gydllynu'r cwbl.

Rhyd Ddu a Chopa'r Wyddfa

Yng nghanol mis Mehefin a glywsoch chi nodau peraidd ein hanthem genedlaethol ar awelon Eryri?! Disgyblion hynaf Ysgol Llanllechid oedd wrthi'n canu ar gopa'r Wyddfa i ddathlu eu llwyddiant! Roedd y golygfeydd yn fythgofiadwy ar ddiwrnod clir o haf. Anghofwn ni fyth wên lydan Llinos Freeman; y gyntaf i gyrraedd Hafod Eryri! Cyn noswyllo yn Nhŷ'r Ysgol, cafwyd amser i ddatrys problemau gyda gemau hwyllo (gwlyb); gwranddo ar chwedlau o'r ardal; ymchwilio i fywyd gwylt y goedwig a'r nentydd a dysgu sgiliau domestig megis golchi a sychu llestri. Mawr yw ein diolch i Cemlyn a Morfudd am ein harwain a braf clywed eu canmoliaeth am ymddygiad y disgyblion.

Annette Bryn Pari

Ein braint fel disgyblion a staff yma yn Ysgol Llanllechid oedd cael croesawu'r hynod dalentog Annette Bryn Pari atom am fore. Siaradodd Annette, yn ei ffordd annwyl a diymhongar, am ei phrofiadau yn chwarae'r piano, gan gyfeilio i rai o'r cantorion enwocaf mewn neuaddau ledled y byd. Perfformiodd alawon Cymreig o flaen yr ysgol gyfan a'r gân enwog o'r ffilm 'Frozen', gyda'r plant wrth eu boddau yn ymuno yn y gyngan. Bore a chyngerdd bythgofiadwy! Diolch yn fawr Annette. Mae Ysgol Llanllechid wedi gwneud ffrind newydd!

Dadorchuddio Cofeb y Cymry yn Fflandrys

Mae côr yr ysgol wedi bod yn hynod o ffodus cael cyfle i ganu gyda Chôr Meibion y Penrhyn yng Nghapel Jerusalem yn ddiweddar. Wedi hynny, cafwyd cyfle i ganu gydag aelodau o gôr arall, sef Côr Rygbi Gogledd Cymru yn y Clwb Rygbi ym Mangor. Yr haf yma, bydd aelodau o Gôr Rygbi Gogledd Cymru yn teithio i Fflandrys i goffâu Hedd Wyn a'r rhai a gollodd eu bywydau yn y rhyfel byd cyntaf. Rydym yn hynod ffodus fod disgybl o'r ysgol, sef Gwydion Rhys, wedi ei ddewis i chwarae'r soddgrwth ac i ddarllen yn ystod y seremonïau a gynhelir yn Ypres ym mis Awst a bydd yn rhannu llwyfan gyda gwahanol artistiaid gan gynnwys Roy Noble, Dylan Cernyw a Rhys Meirion. Llongyfarchiadau i chdi Gwydion Rhys! Diolch i Mr a Mrs Alwyn Bevan am y cyfleoedd.

Ioan Doyle

Pob tro yr oeddem yn gweld Ioan Doyle yn yr ardal, roeddem yn swnian arno i ddod yn ôl i'w hen ysgol i'n gweld! Ac felly y bu hi! Yn ystod mis Mehefin, cawsom y fraint o'i groesawu, a ninnau yn ei gofio'n iawn yn ddisgybl yma! Ysbrydolodd Ioan ein disgyblion drwy siarad am ei waith ar y teledu ac am ei dalent yn dringo ac yn wir, ar ddiwedd y prynhawn, dywedodd ambell un o'r plant hynaf eu bod yn awyddus i ddilyn ôl ei droed! Diolch i Ioan am ei wên a'i gyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith ein hysgol.

Archie

Braf oedd cael croesawu Barry 'Archie' Jones o fand Celt i'r ysgol. Cafodd dosbarth Mr Stephen Jones brynhawn i'w gofio wrth wrando

arno'n perfformio ambell gân, gan gynnwys yr enwog 'Un Funud Fach.' Mae Archie yn gyn-ddisgybl i ni yma yn Ysgol Llanllechid ac roedd y disgyblion yn gwranddo'n eiddgar arno'n adrodd hanesion am sut yr oedd Ysgol Llanllechid pan oedd yma'n ddisgybl. Braf hefyd oedd cael dysgu am gefndir diddorol y band. Yr hyn a wnaiff aros yn y cof am amser maith oedd cael canu ein hanthem i gyfeiliant Archie ar y gitâr! Pleser pur oedd cael treulio prynhawn yng nghwmni Archie. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl atom yn fuan!

Yr Ail Ryfel Byd

Braint oedd croesawu dau o'n ffrindiau, sef Mr a Mrs Elwyn Edwards o Borthaethwy i drafod yr ail Ryfel Byd hefo'r plant hynaf. Yr hyn oedd yn arbennig am y profiad oedd bod Mr Edwards wedi bod yn filwr yn y rhyfel ac felly yn gallu siarad yn huawdl am y profiad. Dyma beth yw addysg ar ei orau! Diolch o waelod calon i chi am ddod dros y bont atom a diolch am ateb yr holl gwestiynau. Roedd y plant wedi cael modd i fyw!

Ysgol Pen-y-bryn

Noson Gwricwlaidd

Cawsom noson gwricwlaidd lwyddiannus unwaith yn rhagor eleni gyda llond neuadd wedi dod i wrando ar wahanol gyflwyniadau. Cafwyd cyflwyniad am y Fframwaith Llythrennedd gan blant Tryfan, cyflwyniad am y Fframwaith Rhifedd gan ddosbarth Carnedd, cyflwyniad i'r wefan a'n cyfrif Twitter gan blant Glyder a chyflwyniad am y Siarter Iaith gan ddosbarth Elidir. Daeth PC Dewi Thomas yma hefyd i son am ddiogelwch y we a'r gwersi mae'n eu rhoi i'r plant pan ddaw i'r ysgol. Diolch yn ofnadwy i bawb a ddaeth ac am eich cefnogaeth. Diolch i'r plant hefyd am eu gwaith caled ac i'r staff am eu hyfforddi.

Rhyd Ddu

Bu Glyder yn ymweld â Chanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu ym mis Mehefin. Cawsant ddeuddydd gwych yng nghwmni Morfudd a Cemlyn wrth iddynt fwynhau tirwedd hyfryd Eryri. Cerddodd y criw cyntaf i Gwm Llan, sef rhwng Yr Aran, ac yna i Feddgelert, tra bu'r ail griw yn ar daith yng Nghwm Bychan ac yna i Feddgelert (lle cafwyd hufen ia blasus iawn!!). Roeddem yn ofnadwy o lwcus unwaith eto o'r tywydd ac o'r herwydd cafodd y plant fwynhau llawer o gemau yn yr haul. Y ffefryn oedd y gêm ddŵr ac roedd pawb yn socian!! Hoffai'r plant a'r staff ddiolch yn ofnadwy i Morfudd a Cemlyn am eu croeso cynnes a'u cwmni difyr. Welwn ni chi flwyddyn nesaf, gobeithio!

Cymorth Cyntaf

Cafodd blant Glyder ac Elidir wers fuddiol iawn gan Mrs Ceri Owain am gymorth cyntaf. Dysgodd y plant sut i wneud 'CPR' ar oedolyn, plentyn a babi, beth i'w wneud os yw person yn anymwybodol, sut i ddelio â pherson sy'n tagu a sut i ddelio a pherson sy'n gwaedu. Ymatebodd y plant yn ofnadwy o dda ac roeddem wedi dysgu llawer iawn. Sylwedolodd ambell un nad oeddem yn gwybod rhif ffôn a chod post eu tŷ eu hunain neu dŷ nain a thaid rhag ofn y byddai angen ffonio ambiwlans. Felly maen nhw am fynd ati i ddysgu hyn. Diolch yn ofnadwy i Mrs Ceri Owain am ei hamser a'i pharodrwydd i'n helpu.

Llwyddiannau

Llongyfarchiadau fil i Huw Davies am gael y wobwr am y 'Chwaraewr Mwyaf Addawol' gan Undeb Rygbi Ysgolion Eryri 2014. Da iawn ti Huw, rydym yn ofnadwy o falch ohonot.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Natalie Owen am ddod yn gyntaf gyda'r waywffon ym Mabolgampau'r Urdd. Ymlaen at y rownd nesaf rwan ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Pob lwc i ti!

Sglefrio

Cafodd y Cyngor Chwaraeon gyfle arbennig ac unigryw dros ben, sef cyfarfod â Jenna Downing, sglefwraig fyd-enwog. Nid yn unig hynny, cawsant gynghorion ganddi am sut i sglefrio ac yna cyfle i wneud. Hoffai'r plant ddiolch yn ofnadwy i Ysgol Dyffryn Ogwen am y gwahoddiad; roeddynt wedi mwynhau'n arw!

Pencampwyr Criced Ysgolion Gwynedd

Llongyfarchiadau mawr i dîm criced yr Ysgol sef Huw Davies, Tomos Hughes, Sean Buchanan, Gethin Hughes, Jem Field, Rory White, James Adl, Daniel Hughes, Dafydd Owain a Leon Casey. Bu'r hogiau'n fuddugol yn rownd Gwynedd o dwrnamaint criced a noddid gan Yorkshire Tea. Cynhaliwyd y twrnamaint ar gae criced Pwllheli a diolch o galon i'r mamau caredig sef Annette, Ceinwen a Jill a fu'n helpu i gludo'r tîm. Da iawn chi hogiau am ddod â chlod i'r Ysgol yn ogystal â tharian smart iawn a fu yma ddiwethaf yn 2009.

Athletau'r Urdd

Yn ddiweddar daeth llwyddiant i ran rhai o athletwyr yr Ysgol ar drac athletau Treborth. Aeth Nai Korn, Elisha Griffiths, Ffion Parry, Dyfan Eames a Natalie Owen drwy'r rownd gyntaf ac yna gyda thafliad ardderchog o'r waywffon yn yr ail rownd, aeth Natalie drwodd i'r rownd derfynol ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Da iawn chi i gyd!!

Mabolgampau'r Ysgol

Ar brynhawn dydd Iau, 26 Mehefin, cynhaliwyd mabolgampau'r

Ysgol ar gae Ysgol Dyffryn Ogwen. Trefnwyd y gweithgareddau gan ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Dyffryn Ogwen fel rhan o'u cwrs TGAU a chafwyd cymorth gan aelodau o'r Chweched.

Bu'n brynhawn hwyliog iawn gyda phawb yn mwynhau - roedd yna gystadleuaeth i'r rhieni/neiniau/teidiau hyd yn oed. Diolch o galon i bawb a fu'n gyfrifol.

Portmeirion

Ar 4 Mehefin aeth dosbarth Tryfan i Bortmeirion fel rhan o'u gwaith daearyddiaeth yn cymharu'r pentref Eidalaid â Bethesda. Bu'r plant yn edrych ar nodweddion ffisegol y pentref sydd wedi ei leoli ar fryn uwch y môr. Hefyd cafwyd cyfle i astudio a gwneud darluniau o'r adeiladau lliwgar a hardd o waith y pensaer Syr Clough Williams Ellis. Roedd pawb wedi mwynhau'r trip ar y trên bach o amgylch y goedwig a chael hufen iâ unigryw Portmeirion cyn dychwelyd adref.

Amgueddfa David Lloyd George, Llanystumdwy

Bu dosbarth Tryfan ar ymweliad i Amgueddfa David Lloyd George, Llanystumdwy ar 27 Mehefin. Roedd yn ddi-ddorol iawn clywed hanes plentynod David Lloyd George a'i fywyd gyda'i deulu ym mwthyn Highgate yn y pentref. Cafodd pawb y profiad o fynd i'r ysgol a phrofi sut deimlad oedd mynychu'r ysgol yn Oes Victoria. Roedd hi'n anodd iawn gorfod siarad Saesneg drwy'r amser rhag ofn cael y Welsh Not. Bu rhaid i bawb wneud ei waith ar lechen ac roedd rhaid byhaffio rhag cael cansen gan yr athro, gan ei fod yn ofnadwy o lym.

Llwyddiant



Rydym yn llongyfarch Catherine Elin Roberts, 1 Glanogwen, ar gael ei dewis i nofio i sgwad Nofio Gwynedd. Mae Catherine yn mynd o nerth i nerth gyda'i nofio ac felly'n gorfod teithio cyn belled â Lerpwl er mwyn cael ymarfer mewn pwll 50 metr o hyd, gan nad oes pwll o'r maint hwnnw ar gael yma yng Ngogledd Cymru. Mae Catherine erbyn hyn yn 7fed trwy Gymru yn yr Adran Merched 11 oed ac mae wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn y Pencampwr-iaethau Cenedlaethol a fydd yn cael eu cynnal yn Abertawe ddechrau mis Awst. Ardderchog, Catherine, a phob hwyli i ti yn Abertawe.

Treuliodd Catherine ddydd Sadwrn 21 a dydd Sul 22 Mehefin yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yn y *Wavertree Aquatic Centre*, Lerpwl. Cafodd ei mam, Delyth, ei brawd, Gethin, a'i nain, Eleanor, amser bendigedig yno yn gwyllo Catherine yn cystadlu.

Yn ogystal, mae Catherine yn gwneud yr un mor dda gyda'i gymnasteg, ac wedi cael ei dewis i gynrychioli tîm gymnasteg Dinas Bangor mewn cystadleuaeth ym Mwcle 28 - 29 Mehefin, a hefyd yn Neston 5 - 6 Gorffennaf.

Da iawn, chdi, Catherine, rydym i gyd yn falch iawn, iawn o dy llwyddiant, ac yn dymuno'r gorau iti i'r dyfodol

Ysgol Abercaseg

Paid Cyffwrdd Dweud!

Daeth Marc i'r ysgol eto eleni i siarad â'r plant am beryglon cyffwrdd â meddyginiaethau. Roedd ei gyflwyniad, fel arfer, yn fywiog ac yn llawn hiwmor a chafodd ymateb brwdfrydig iawn gan y plant i gyd.

Llwyddiant yn y Sioe

Roedd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn sioe lwyddiannus iawn i ddisgyblion Ysgol Abercaseg gyda nifer fawr o'r disgyblion yn cyrraedd y brig boed hefo'u lluniau, gwaith celf neu wrth redeg ras! Da iawn chi blant!

Trip Addysgol



Y plant yn gwrando'n astud yn Tesco

Cafodd holl blant yr ysgol brofiadau amrywiol yn ystod eu trip addysgol y flwyddyn hon! Yn gyntaf, cawsant eu harwain o gwmpas siop Tesco ym Mangor a gweld rhannau o'r siop nad yw siopwyr yn cael mynediad iddynt! Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o gael cerdded i mewn i'r oergell a'r rhewgell anferthol, blasu gwahanol fathau o gawsiau a thomatos a gweld y broses o wneud a phobi bara! Yna, ar ôl bore mor brysur, i ffwrdd â phawb i Gastell Penrhyn i gael picnic a dysgu am fywyd ers talwm. Mae'n debyg fod gan bob un o'r plant ddigon i'w ddweud ar ôl diwrnod mor llawn a diddorol!

Ffair Haf

Cynhaliwyd Ffair Haf yn yr ysgol yn ddiweddar. Ymhlith yr holl stondinau roedd yna rai yn gwerthu cynnyrch y plant, stondinau tatws, addurno mygiau, lliwio gwalltiau a'r stondin deganau. Er hyn, heb unrhyw amheuaeth, y stondin brysuraf oedd yr un peintio ewinedd, ac roedd hi'n werth gweld ewinedd llachar y genod! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ysgol a diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Ffair lwyddiannus eto eleni!

Seren Aur y Flwyddyn



Llongyfarchiadau i Sienna, dosbarth Ogwen, am ennill 'Seren Aur y Flwyddyn 2014'. Ers wythnosau, bu Sienna'n brysur yn creu a gwerthu breichledau ar Facebook ac yn Ffair Haf yr ysgol gan godi £72. Dewisodd gyfrannu'r arian i gyd at Ysgol Abercaseg. Diolch yn fawr iawn i ti Sienna am yr holl waith ac am aros ar dy draed am oriau hir yn creu'r breichledau. Roedd pawb wedi gwirioni hefo nhw a does ryfedd dy fod wedi eu gwerthu i gyd!!

Pob lwc!

Cafodd plant Blwyddyn 2 fynd i Ysgol Pen-y-bryn am ddiwrnod yn ddiweddar er mwyn cael blas ar beth fydd yn eu disgwyl ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn ac maent bellach yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael mynd i'w hysgol newydd. Pob lwc i chi yn Ysgol Pen-y-bryn blant – cofiwch alw i ddweud helo pan fyddwch yn pasio!

Ffarwelio

Mae diwedd y tymor yma yn gyfnod o ffarwelio â nifer o staff yr ysgol. Yn dilyn deg mlynedd ar hugain fel athrawes yn Ysgol Abercaseg, mae Mrs Janice Lewis yn ymddeol, a bydd Mrs Carys Owen, sy'n dysgu yn yr ysgol ers dwy flynedd, yn cychwyn ar swydd newydd yn Ysgol y Felinweli. Bydd Miss Paula hefyd yn ein gadael wrth i Miss Siân ddychwelyd i'w swydd yn dilyn cyfnod mamolaeth yn magu Jac Delwyn. Dymunwn yn dda i'r tair ohonynt a diolch iddynt am eu gwaith yn yr ysgol.

Ysgol Bodfeurig

Caffi Bodfeurig



Yn ystod y mis diwethaf, bu dosbarth Ogwen yn brysur yn paratoi a chreu caffï yn yr ysgol. Roeddent yn creu 'gourmet byd eang' i'w werthu i rieni a disgyblion eraill. Roedd y caffï yn ceisio annog y plant i wneud elw a fuasai'n cyfrannu tuag at y trip diwedd tymor i gopa'r Wyddfa!

Llwyddiant Criced



Llongyfarchiadau i'r ddau dîm criced a gystadlodd yng nghystadlueaeth criced y cylch ym Methesda'n ddiweddar. Llwyddodd Tîm A i ennill eu gemau i gyd ac yna ar 24 Mehefin aethant i Bwllheli i chwarae yn y Gystadlueaeth Rhanbarth, ac eto cafwyd llwyddiant gan ennill bob gêm. Da iawn chi fechgyn a merched.

Ymweliad â'r RNLI - Biwmares



Dyma ddisgyblion dosbarth Idwal ar ymweliad arbennig â'r RNLI ym Mîwmares. Roedd yr ymweliad yn rhan o'u gwaith ar deithio ar y môr. Cafodd pawb amser rhagorol yn dysgu mwy am y gwaith gwyb y mae'r tîm yn ei wneud yno.

Y SLACHTAR YN Y LLWTRA AR Y SOMME

Rwyf fi'n gysylltiedig â dau y mae eu henwau erbyn hyn yn greithiau o lythrennau sydd ar gofebion milwrol o ganlyniad i'r slachtar yn y llwtra ar y Somme adeg y Rhyfel Mawr. Gorwedd un ohonynt ym Mynwent Filwrol Lijssenthoek yng Ngwlad Belg tra gorwedd y llall ym Mynwent Filwrol Sucrierie yn Ffrainc ac fe'm magwyd yng nghanol sôn mynych am y ddau ohonynt am flynyddoedd lawer. Enw'r naill oedd Lewys Jones Williams ac enw'r llall oedd Robert David Jones.

Yn ystod y Rhyfel Mawr, ardal Ypres oedd yr unig gornel o Wlad Belg ym meddiant byddinoedd Prydain a Ffrainc. Roedd *Jungdeutschland* yr Almaen, sef hufen ieuencid y Tiwtoniaid, gyda chymorth ychydig o filwyr mwy profiadol, wedi diogelu eu hunain ar gefnennau ddi-dor ychydig filltiroedd i'r de-ddwyrain, y dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o dref fechan Ypres ar ffurf llythyren C o chwith o ble y gallent weld y gwastadeddau rhwng y sgarpiâu a'r dref yr oedd byddinoedd Ffrainc a Phrydain yn eu hamddiffyn. Roedd yr holl dir hwnnw'n ymwithio ar ffurf hanner cylch hyd at linell flaen y gelyn.

Roedd Ypres yn dref fechan lewyrchus cyn 1914 ond fe'i dinistriwyd hi a'i phentrefi cyfagos bron yn llwyr dan fombardiad yr Ellmyn a barodd yn ddi-dor am bedair blynedd bron, o ddiwedd Hydref 1914 tan ddiwedd y rhyfel yn 1918. Yn y broses, fe drowyd y gwastadeddau crybwylliedig yn fôr o laid peryglus ymhen dim o amser fel na allai milwyr y gynghrair fynd drwyddo'n ddiogel oni bai eu bod ar lwybrau pren lithrig. Boddwyd miloedd o'r anffodusion hynny yn y priddlifeiriant budr wedi iddynt gamu neu lithro oddi ar y llwybrau dan sylw. Cafodd cannoedd ar filoedd o filwyr eraill naill ai eu lladd neu eu clwyfo'n gorfforol yn y llaid drewllyd. Ar ben hynny, cafodd degau o filoedd o rai eraill eu clwyfo'n seicolegol gan eu profiadau dan y bombardiad oblegid bod eu synhwyrau wedi cael eu pylu gan ddwndwr cyson y ffrwydradau.

Anafwyd y corporal Lewys Jones Williams, B.A. hyd at farwolaeth yn y llinell flaen ym mhentref Dickebusch oddeutu 3½ milltir i'r de-ddwyrain o Ypres dridiau cyn y Nadolig 1915. Roedd wedi ymuno'n wirfoddol â byddin yr Arglwydd Kitchener yn Wrecsam ar ddydd Mercher 23 Medi 1914 wedi iddo adael ei swydd fel isathro dan brifathrawiaeth William Brock yn Ysgol Eglwys Loegr, Tregarth, sy'n cael ei galw erbyn hyn yn Ysgol Penygroes, Tregarth. Roedd Lewys yn hen ewythr i mi ar ochr fy mam o waed. Dim ond ers dydd Llun 27 Medi 1915 y bu'n ffwsilwr gweithredol yn ffosydd Fflandrys.

'Wn i ddim yn union ble y cafodd yr is-gorporal Robert David Jones ei ladd yn y Rhyfel Mawr. Gwn yn unig y bu iddo syrthio ar faes y gad ddydd Mawrth 25 Gorffennaf 1916. Un o'r gwirfoddolwyr oedd yr is-gorporal Robert David Jones, yntau hefyd yn filwr gweithredol a hynny dim ond ers dydd Iau 2 Rhagfyr 1915. Roedd yn daid i fy niweddar fam faeth ac yn nai i 'daid' yr actor John Ogwen ar ochr ei dad.

'Doedd ardal y gwastadeddau elinog i'r de-ddwyrain, y dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o Ypres ddim yn lle delfrydol i fod ynddo adeg y Rhyfel Mawr. Roedd y lle yn fôr o gyrff a gwaed oblegid fod llawer wedi cwmpo yno fel llydnod dethol mewn lladd-dai ac eraill wedi'u clwyfo mewn gwahanol ffyrdd. Ar ben hynny, roedd drycsawr y meirwon yn drwch cyfogyd yn yr aer uwch ffronau'r milwyr yn y ffosydd ac roedd gwaed y rhai a oedd wedi'u clwyfo a'u lladd yno'n gwriddo llyfnder dŵr y pyllau mawr a mân a'r llaid, ac yn torri'n alaethus ar undonedd y lliw carthion anghynnes. Hefyd, roedd ambell ddarn o gyrff y rhai eraill yn daen waedlyd ar y llawr lithrig dan draed y milwyr druan a gruddiau'r lladedigion glasoes yn wyn a difwyd fel marmor yn y llwtra. Byddai milwyr yn gorfod byw a marw fel anifeiliaid yng ngenau difodiant ar y Somme. Nid oedd trugaredd i'r un dyn byw yno, boed gyfaill neu elyn!

Yn y gyflafan chwerw ar faes y gad creulon ar y Somme, byddai sŵn byddarol y gynnu mawrion yn ergydio yn debyg i haid enfawr o gŵn mawr cynddeiriog yn cyfarth yn uchel a byddai'r fflachiadau a'r llafnau tân a ddeuai o ffronau mileinig y gynnu yn ymddangos fel pe byddent yn dawnsio'n orffwyll yng ngwyll y cyflychwr neu ddŵch y nos. Ychwanegid yn ddarfawr at y ddwndwr nid yn unig gan sgrechiadau croch y sielïau ar eu digyfeiliorn hynt drwy'r aer cyn iddynt chwalu'n ffrwydrol, gan yrru'r fflawiau bradwrus oedd yn eu crombil, i frathu a chwilfriwio cnawd y milwyr druan a'u lladd yn y dull mwyaf dieflig posibl ond hefyd gan seiniau stacato gwyllt cannoedd ar gannoedd o ynnau-peiriant yn tanio gyda'i gilydd. Gallai'r rheiny fedi miloedd o filwyr ar y tro. Dan y fath gawodydd angheuol ac yn wyneb y fath lenni echrydus o dân marwol, 'does ryfedd bod cymaint wedi syrthio ar y meysydd lladd yn nyddiau'r drin yn agos i Ypres. Ofer oedd i'r milwyr weddio am gael eu cadw rhag difrod ar faes y tân hwnnw oblegid y diafol a'i weision dynol oedd yn teymasu ar y ddaear yno.

Yr ymdeimlad eu bod yn gwneud eu dyletswydd tuag at eu gwlad a gyflyrodd yr ymadawedig Lewys Jones Williams a Robert David Jones yn ogystal â channoedd ar filoedd o rai eraill tebyg i ymuno â byddin Prydain adeg y Rhyfel Mawr. Maen nhw'n haeddu ein parch am hynny beth bynnag a feddylwn ni heddiw am y gyflafan honno a ddechreuodd yn Fflandrys ganrif yn ôl a barodd er mawr ofid i drigolion y cyfnod am bedair blynedd flin.

Dafydd Llewelyn gynt o Dregarth.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant. Cynghori, gosod a thorri wigiau Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 - 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Rygbi

Tymor cymysglyd

Cafodd Tîm Cyntaf Bethesda dymor i'w anghofio ar brydiau ac i'w drysori ar adegau eraill.

Dydi'r clwb ddim yn chwilio am esgusodion am berfformiadau gwael ond bu'r tymor yn un hynod ddrwg am anafiadau i chwaraewyr profiadol. Croesawyd Steven Roberts yn ôl yn dilyn cyfnod hir efo anaf i'w ffêr. Yn anffodus, cafodd anaf drwg arall i'w ben-glin ar ôl llond llaw o gemau ac mae'n edrych yn debygol na fydd yn chwarae eto. Bydd colled fawr ar ei ôl gan na welwyd ei debyg am gario pêl a chwalu gwrthwynebwy'r o'r neilltu ar Ddôl Ddafydd.

Bu diffyg disgyblaeth yn broblem fawr y tymor hwn. Derbyniodd dau chwaraewr gerdyn coch ddwywaith yr un yn ystod y tymor. Gan fod dau ganolwr profiadol heb fod ar gael, bu raid i Dylan Hughes a Huw Williams symud o blith y blaenwyr at yr olwyr a gwnaeth y ddauban joban reit dda mewn safleoedd dieithr. O ganlyniad i'r problemau hyn, symudodd y tîm o fod ar ben y tabl ym mis Tachwedd i fod yn bedwerydd o'r gwaelod erbyn diwedd y tymor.

Er yr holl broblemau, erbyn ail hanner y tymor dychwelodd Gareth Ogwen i'r tîm yn dilyn cyfnod hir o anaf. Datblygwyd chwaraewyr newydd a dyfarnwyd un ohonynt - Rhys Williams - nid yn unig yn Chwaraewr Mwyaf Addawol y Flwyddyn, ond hefyd yn Chwaraewr y Flwyddyn!

Chwaraeodd Llion Lloyd ym mhob gêm gystadleuol y tymor a derbyniodd dlws arbennig am ddal ati!



Rhys Williams

Bydd capten newydd ar y clwb y tymor nesaf. Ar ôl nifer o flynyddoedd yn y swydd, ymddeolodd Paul Thomas a dewiswyd Iwan Williams i gymryd ei le. Bu Paul yn chwaraewr allweddol yn y sgrymiau ac o amgylch y cae a gobeithio y bydd yn parhau i fod felly am sawl tymor eto.

Ar ôl 5 tymor yn lleddfu poenau'r chwaraewyr, penderfynodd ein ffisiotherapydd, Becky Chapman, nad oedd yn bosibl iddi barhau yn ei swydd. Diolch yn fawr i ti Becky am dy wasanaeth a dy wên siriol bob amser.

Bydd y tymor nesaf yn un tyngedfennol i'r clwb. Bydd 12 tîm yn Adran 1 y Gogledd o hyn ymlaen a bydd 2 yn symud i Adran 2 ar ddiwedd y tymor a 2 yn symud i fyny. Yn y gobaith o sicrhau diogelwch, mae'r clwb yn ceisio denu 2 chwaraewr tramor i gryfhau'r olwyr am gyfnod.



Paul Thomas ac Iwan Williams

Bydd y clwb yn dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed y tymor nesaf, ac mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu. Cofiwch ddod i lawr i gefnogi'r timau ac i fwynhau'r awryglch yn y clwb wedyn. Mae 'na lawer o hwyl i'w gael!

Tîm Rygbi Ysgolion Eryri



Yn dilyn pedair wythnos o dreialon gan Undeb Rygbi Ysgolion Cynradd Eryri yn yr hydref, roedd Iestyn ap Dafydd, Bryn Meurig Bach, yn un o'r rhai a gafodd ei ddewis i gynrychioli tîm Rygbi Eryri. Yn ystod y flwyddyn, mae wedi cael chwarae yn erbyn timau ar hyd a lled Cymru ac wedi cael profiadau bythgofiadwy. Ym mis Mai, cafodd Iestyn ei ddewis i fod yn rhan o dîm 7-bob-ochr Eryri mewn twrnamaint cenedlaethol yng Nghlwb Rygbi Dynfant, Abertawe.

Llwyddodd tîm Eryri i gyrraedd y rownd derfynol ar gyfer Powlen Undeb Rygbi Ysgolion Cymru.

Cyflwynwyd tlws a bathodyn arbennig i bob aelod o'r tîm 7-bob-ochr ar ddiwedd y twrnamaint. Llongyfarchiadau Iestyn a phob dymuniad da yn y dyfodol!

Llwyddiant Mabolgampau



Llongyfarchiadau i Siôn Bullock, Llain y Pebyll, ar ennill Cwpan Mabolgampau Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eleni. Siôn gafodd y nifer uchaf o bwytiau yn y rasys ar y diwrnod. Go dda rŵan, Siôn!